# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 546** · **Hydref 2023** · 70c

## Grantiau Elusen Ogwen yn gwella'r Dyffryn



Mi fydd y rhai ohonoch chi sydd â chof da yn cofio i ni gael erthygl yn rhifyn mis Mehefin am waith Elusen Ogwen – yr elusen sy'n dosbarthu elw o gynlluniau ynni cymunedol Ynni Ogwen. Mae hon yn gyfres o dair o erthyglau felly dyma ni'n parhau gyda'r ail, er mwyn cael clywed gan ragor o sefydliadau, mentrau a chwmnïau lleol sydd wedi elwa o gefnogaeth yr Elusen.

"Fel Cyfeillion Ysgol Llanllechid fe wnaethom ni gais am nawdd gan Elusen Ogwen ar gyfer deunydd ailgylchadwy ar gyfer ffair Nadolig yr Ysgol – pethau fel cartonau, cyllyll a ffyrc, llwyau ac ati" meddai Paula Owen o Gyfeillion Ysgol Llanllechid. "Mae Ysgol Llanllechid yn Ysgol Werdd felly mae'n bwysig i ni ac i'r plant ein bod ni'n gwneud pob ymdrech i leihau gwastraff yn ystod ein digwyddiadau, a gwarchod y blaned ar gyfer y dyfodol."

"Pwrpas digwyddiadau fel Ffair Nadolig yr Ysgol ydi codi arian y gallwn wedyn ei roi tuag at bethau fel llyfrau newydd, offer chwarae, neu unrhyw beth sy'n rhoi profiadau gwych i'r disgyblion." Aiff yn ei blaen i esbonio. "Felly mae cael grantiau gan Elusen Ogwen yn ffantastig gan ei fod yn golygu nad oes rhaid talu am bopeth allan o elw'r digwyddiad, felly mae mwy o elw ar ôl yn y pot i'w wario ar yr ysgol a'r disgyblion."

Mae Elusen Ogwen yn dyfarnu grantiau bedair gwaith y flwyddyn, a'r dyddiadau cau am geisiadau dros £750 (gellir gwneud cais am lai na £750 unrhyw dro) fel a ganlyn: 30 Medi, 31 Rhagfyr, 31 Mawrth a 30 Mehefin.

Mae unrhyw grwpiau cymunedol cyfansoddedig, elusennau cofrestredig, unrhyw gwmni cydweithredol neu gwmni cyfyngedig trwy wariant sydd wedi eu lleoli o fewn Cynghorau Cymuned Bethesda, Llandygái neu Lanllechid yn gymwys i dderbyn nawdd o hyd at £3,000 gan yr Elusen.

Sefydliad arall sydd wedi manteisio ar y cyfle hwn yw'r Clwb gymnasteg nid-er-elw ym Methesda, Dreigiau'r Dyffryn.

**Parhau ar dudalen 3...**

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
**LLAIS OGWAN**
**Nos Fercher, 1 Tachwedd am 7.00yh**
**yn Festri Jerusalem**
**CROESO CYNNES I BAWB**

**Yn y rhifyn yma**

Priodas Ddiemwnt



5

Arddangosfa Rhiannon Gwyn



14

Hosbis Dewi Sant




20

# Llais Ogwan

## Rhif 546
Hydref 2023


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Trystan Pritchard**.

Y golygydd ym mis **Tachwedd** fydd Neville Hughes, Bryn Ffrydlas, 14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA. 01248 600853
E-bost: nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 28 Hydref** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau**, **16 Tachwedd** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184


## Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

## Dyddiadur y Dyffryn

**Hydref**

24 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
30 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00
31 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Tachwedd**

01 Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan. Festri Jerusalem am 7.00
09 Cymdeithas Jerusalem. Noson yng nghwmni Walter Williams.Y festri am 7.00.
11 Marchnad Ogwen, Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
13 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
13 Cymd. Hanes D. Ogwen. Meg Elis. Festri Jerusalem neu Rhithiol am 7.00
14 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
16 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
17 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
18 Eisteddfod Cadeiriol Dyffryn Ogwen. Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00yb.
22 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00.

**Rhagfyr**

09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Hydref**

| | |
|---|---|
| £30.00 | (64) Rita Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda |
| £20.00 | (3) Marilyn Jones, Glan Ffrydlas, Bethesda |
| £10.00 | (48) Cemlyn Jones, Erw las, Bethesda |
| £5.00 | (23) Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas, Bethesda |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £50 | Elwyn Jones, Rhiwlas, er cof am Margaret |
| £25 | Er cof am David O'Connor gan Erin a Hywyn |
| £20 | Dylan Rees Williams, 6 Rhos y Coed, Bethesda. |
| £20 | Er cof am Paul a Glyn Campbell, Erw Las, Bethesda a fuasai wedi cael eu penblwydd ym mis Hydref. Buasai Paul wedi dathlu ei 60 oed ar Hydref 28ain. Gyda hiraeth oddi wrth Hilda, Lynne |
| £14 | Stephen Edwards, Ffordd Llanllechid, Rachub. |
| £10 | Barbara Jones, Talybont |

**Diolch yn fawr**

Parhad o dudalen 1...




"Yn ein dwy uned gymnasteg yn Stad Ddiwydiannol Coed y Parc, roedd dros 70 o diwbiau golau fflworoleuol (fluorescent), yn defnyddio dros 5kW o drydan yr awr.

Roedden nhw'n hen ac yn ddrud i'w rhedeg, a nifer ddim yn gweithio'n iawn. Fe benderfynom wneud cais am nawdd gan Elusen Ogwen i'w newid nhw am rai olau stribed LED newydd," esbonia Sophie Pipe, sef Cyfarwyddwr a Phrif Hyfforddwr y Clwb.

"Roedd ein cais yn llwyddiannus a bu modd i ni newid yr holl stribedi mewn un uned.

Mae hyn wedi rhoi golau hyfryd, glân a gwastad ar draws y gampfa, sydd yn berffaith ar gyfer hyfforddi ac yn llawer saffach hefyd. Fe wnaeth y gosodwyr, HJT Electric job broffesiynol iawn yn eu gosod, ac roeddem wrth ein boddau bod cynifer o bobl wedi sylwi ar y gwahaniaeth gan ddweud bod golau'r gampfa yn llawer mwy llachar.

"Rydym yn arbed arian hefyd! Roedd y gosodwyr yn amcangyfrif y byddem yn arbed hyd at 70% o'n defnydd trydan i oleuo'r uned; sy'n newyddion gwych gyda chostau trydan wedi cynyddu gymaint."

Felly fel y gwelwch, o gyfarpar cegin ailgylchadwy i stribedi golau ynni isel, mae cefnogaeth yr elusen yn eang. Os hoffech chi wneud cais am grant gan Elusen Ogwen ewch draw i ddarllen y canllawiau ac i ddod o hyd i'r ffurflen gais yma:

https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/ neu cysylltwch trwy ebost ar elusenogwen@gmail.com i drefnu i gael sgwrs anffurfiol am eich cais.

**"Rydym yn arbed arian hefyd! Roedd y gosodwyr yn amcangyfrif y byddem yn arbed hyd at 70%."**

## Llythyrau

Annwyl Olygydd
Fel mae rhai o'ch darllenwyr efallai yn gwybod, rydw i wedi creu gwefan – www.cofnodicorlannau.org – sy'n cofnodi'r corlannau unigryw sydd i'w gweld ar y Carneddau mewn lluniau a geiriau.

Yn ddiweddar, rydw i wedi dechrau adran newydd – Hanesion - lle hoffwn gasglu a chofnodi atgofion o ffermio defaid ar y Carneddau yn gyffredinol, a sut y defnyddiwyd y corlannau yn arbennig. Os oes gan unrhyw un atgofion neu wybodaeth yr hoffen nhw eu rhannu - mawr neu fach – mae croeso iddyn nhw gysylltu â mi trwy e-bost ar nigel.beidas@gmail.com. Pe bai hynny'n haws, byddwn yn hapus iawn i gyfarfod am sgwrs.

Po fwyaf o hanesion a geir, y llawnaf fydd y darlun y ar y wefan o ffermio defaid ddoe a heddiw.

Rydw i'n edrych ymlaen at glywed gan y darllenwyr ac yn diolch iddyn nhw ymlaen llaw.
**Nigel Beidas**



## Adroddiad Cyngor Cymuned Llanllechid Medi 2023

Cynhalwyd cyfarfod Mis Medi Yn Festri Capel Bethlehem, Nos Fercher 13fed o Fedi.
Hoffai'r Cyngor Cymuned ddymuno gwellhad buan i'r Cynghorydd Alun Thomas yn dilyn damwain ddifrifol. Yn dilyn traddodiad, cafwyd hel llwyddiannus ar y Carneddau dechrau mis Medi.
Hefyd cafwyd sêl ŵyn di nôd mis Medi lle gwerthwyd yr ŵyn.

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**



Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* — *Porthaethwy (01248) 719517* — *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* — *Pwllheli (01758) 703000)*



Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**



Marchnad Ogwen

**Yn ôl !!**

**Tachwedd 11eg**
**9.30am - 1.00pm**
**Tachwedd 22ain**
**5.00pm - 8.00pm**
**Rhagfyr 9fed**
**9.30am - 1.00pm**

**Neuadd Ogwen**

**www.marchnadogwen.co.uk**
**facebook instagram**


# Y Gerlan

**Brownies yn dathlu penblwydd arbennig**

Cafodd Brownies Nant Ffrancon noson llawn hwyl yn dathlu eu pen-blwydd yn 10 oed ar y 13eg o Orffennaf yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Fe ddechreuodd Brownies Nant Ffrancon yn Caban Gerlan yn 2013 ac maent yn parhau i ddefnyddio'r neuadd yn wythnosol hyd heddiw ac wedi bod yn uned lawn o ferched ers y cychwyn.

Mae Brownies yn croesawu merched rhwng 7 a 10 oed i gael hwyl, dysgu ac antur di- ddiwedd ac mae llawer o hynny wedi bod dros y 10 mlynedd diwethaf. O nosweithiau codi arian digwsg, llawer o ganu, pobi, crefftau, pacio bagiau, tripiau i fyny'r Wyddfa a llawer mwy.

Daeth cyn aelodau'r Brownies, rhai presennol, aelodau'r dyfodol, mamau, tadau, cyn-arweinwyr, cefnogwyr eraill Brownies Nant Ffrancon a'r arweinwyr presennol Lucy, Rachel, Soo a Seren at ei gilydd i ddathlu i'r Clwb Rygbi.

Cafwyd cyfle i wneud nifer o ddiolchiadau, bwyta cacen hyfryd yr oedd 2 fam wedi ei gwneud yn arbennig i'r dathliad, chwarae gemau a chael hwyl parasiwt ar y cae gyda'r merched.

Cynhaliwyd raffl i godi arian sydd mawr ei angen ar y clwb a chodwyd £137. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd ac i fusnesau lleol Londis a Tesco bach am eu cyfraniad nhw hefyd.





Edrychwn ymlaen at 10 mlynedd arall o Brownies Nant Ffrancon.

**Ysbyty**

Gyrrwn ein cofion cynhesaf at Gareth Owen Jones (Bow) sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn cael cyfle i ymlacio a dod at dy hun yn dy gartref newydd yng Nghiltwllan.

**Tŷ cyntaf**

Llongyfarchiadau i Caleb Rhys, Stryd Isaf, a'i bartner Sian sydd ar fin symud i Gaernarfon. Mae Caleb a Sian wedi prynu eu tŷ cyntaf yno. Gobeithio y byddwch yn hapus yng ngwlad y Cofis!

**Babi newydd**

Llongyfarchiadau i Anna Jane a Miles Stryd Isaf ar enedigaeth eu merch fach Lili Jane. Mae Anna'n ferch i Gisella Williams o Faes Bleddyn gynt. Dwi'n siwr fod y teulu wedi gwirioni'n lân efo'r fechan.


MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

## Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Hydref 22: Oedfa Ddiolchgarwch.
Hydref 29: Parchg. Alan Spencer.
Tachwedd 5: Mr. D. Glyn Williams.
Tachwedd 12: Oedfa.
Tachwedd 19: Parchg. Geraint Roberts.
Croeso cynnes i bawb.



**Priodas Ddiemwnt**
Mae gŵr a gwraig, sydd yn aelodau ffyddlon o'r capel, wedi dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar 5 Hydref. Yng nghyfarfod y Bwrlwm a gynhaliwyd ar yr union ddiwrnod, fe longyfarchwyd Hughie a Rita Hughes, Lôn Ddŵr yn gynnes iawn, ac wrth gwrs fe gafwyd cacen abennig i ddathlu'r achlysur.

**Cartrefi newydd**
Y mis yma, estynnwn groeso cynnes iawn i Becky, Jordan a Nico i rif 28 Cae Gwigin. Mae Becky yn chwaer i Chelsey, sydd newydd ddod i fyw i 16 Dolhelyg. Mae Tom wedi dod atom i 4 Dolhelyg, cartref y ddiweddar Sister Olwen Thomas. Estynnwn groeso cynnes iddo yntau, a gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

**Newid clwb**
Fel y gwyddys eisoes, mae Kian, mab Jason 5 Cae Gwigin, yn bêl-droediwr addawol iawn.Y tymor hwn, mae o wedi symud o Borthmadog i chwarae efo carfan Bethesda. Pob lwc iti, Kian.Gobeithio y cei lwyddiant mawr efo dy glwb newydd.

**Croeso adra!**
Croeso'n ôl i fferm Ty'n Hendre i Alun Thomas. Dioddefodd Alun ddamwain ddifrifol iawn rai misoedd yn ôl ond, diolch i arbenigedd Staff Ysbyty Stoke-on-Trent, lle bu'n gorwedd am wythnosau, mae o gartreferbyn hyn ac yn gwella'n dda, er yn araf, o dan lygad barcud Anita.

Mae Alun ac Anita yn dymuno diolch o waelod calon i'w teulu a'u ffrindiau, o'r gymuned amaethyddol a thu hwnt, am yr holl gymorth a chefnogaeth maent yn derbyn ar adeg mor anodd.

Mae'r ardal gyfan yn dymuno gwellhad llwyr a buan iti, Alun. Pwyll ac amynedd biau hi rwan. Dalia ati!

**Bysiwch wella!**
Anfonwn ddymuniadau gorau i Rhiannon Williams, 15. Cae Gwigin.

Y mis diwethaf, cafodd driniaeth lwyddiannus i'w chalon yn Ysbyty Broadgreen. Ni fu fawr o dro cyn cael dod adref ond, yn anffodus, cafodd godwm yn ei chartref a thorri ei chlun. Mae hi'n dal yn Ysbyty Gwynedd ac, er llawenydd mawr i bawb, mae hi'n dechrau cryfhau. Brysiwch yn ôl i Dalybont, Rhiannon. Rydym yn gweld eich eisiau yn y Bwrlwm a'r Clwb Coffi.

Mae Neville Fernley, Helyg, wedi gorfod dioddef mwy o driniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Gobeithio na fydd yn hir cyn cael dod adra' i fwynhau cwmni Mag a'r teulu, a'r tîm ffyddlon o nyrsus agofalwyr sydd â meddwl mor fawr ohono.

**Profedigaethau**
Ar Fedi'r 2ail, yn ei gartref, Glan Bethlehem, bu farw Richard Pritchard, gŵr, tad a thaid caredig, ac yn ffrind i bawb a'i adnabu. Gŵr tawel a di-rodres oedd Richard, ond yn hynod o ddawnus mewn sawl ffordd. Mae'r ardd yng Nglan Bethlehem yn wlêdd i'r llygad drwy'r flwyddyn, a llawer ohonom wedi derbyn gair o gyngor gwerthfawr ganddo wrth fynd heibio. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i weddw, Liz, ei ddwy ferch, Tracey a Cindy a'u teuluoedd, a theulu ei ddiweddar frawd, Dennis, yn eu colled drist.

Cawsom i gyd fraw pan ddaeth y newyddion trist am farwolaeth ddi-symwth Mrs Sally Davies yn ei chartref, 3 Min Ogwen, ar Fedi'r 23ain. Roedd Sally yn gymeriad llon a chlên, a byddai ganddi wên a gair caredig i bawb. Estynnwn gydymdeimlad dwys at ei gŵr, Dei, Katie, ei merch, y ddau fab, John Richard a Hefin ac at bawb o'r teulu yn eu galar.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
**A.G.L.** Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**L. Sturrs a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

post@llaisogwan.com

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com



## Capel Carmel

Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
Hydref 22: Diolchgarwch.
Hydref 29: Parchg. Siôn Aled. (2 o'r gloch)
Tachwedd 5: Parchg. Sara Roberts.
Tachwedd 12: Parchg. Mererid Mair.
Tachwedd 19: Parchg. Dewi Morris.(2 o'r gloch)
Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30yh. Croeso cynnes i bawb.

**Newyddion Capel Carmel**

Mi wnaethom ni golli un o'n haelodau yn ystod y mis a aeth heibio sef Mr Thomas Jones, Cilan. Bu Thomas yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r eglwys yng Ngharmel ac yn ddiacon yma am dros 50 o flynyddoedd ac roedd yn cynrychioli'r capel yng Nghyfarfod Chwarter Cyfundeb Gogledd Arfon. A phan fyddai Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn cael eu cynnal yng nghylch Bangor, roedd yn rhan o'r gweithgarwch hwnnw.

Cymerodd gyfrifoldeb am ofalu am adeiladau Capel Carmel hefyd am nifer o flynyddoedd gyda chymorth aelodau eraill.

Cafodd Thomas ei fagu yng Ngharmel a'i deulu yn gefn mawr i'r achos yma ac roedd yn un o blant yr Ysgol Sul ac yn frwdfrydig ynglŷn ag actio yng nghyngherddau'r Gobeithlu (Band of Hope).

Rydan ni'n rhoi diolch am ei ymroddiad i'r gwaith i gyd a'i ffyddlondeb i'r achos. Mi fydd hi'n chwith garw i ni ar ei ôl. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ar 11 o fis Medi yng ngofal Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Rydan ni'n cydymdeimlo gyda'i blant Alan, Colin a Carys a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Rydan ni'n diolch hefyd i Alan, Colin a Carys am roi'r rhoddion er cof am eu tad tuag at waith yr Ysgol Sul.

**Dathlu**

Hoffai Melanie Tugwell Bennett ddiolch i bawb am eu cyfarchion a rhoddion hael ar achlysur ei phenblwydd yn 50 yn ddiweddar.

Hefyd hoffai Lucy Tugwell ddiolch am y cyfarchion a rhoddion hael ar achlysur ei phenblwydd yn 22.

**Ymddeoliad**

Dymuniadau gorau i Meurig Roberts, Ffordd Llanllechid ar achlysur ei ymddeoliad. Bu Meurig yn gwasanethu Heddlu Gogledd am dros ddeugain mlynedd. Hefyd gobeithio bod Denise, i wraig, yn gwella wedi llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Clwb Hanes Rachub**.

Er bod gwyntoedd storm Agnes yn rhuo dros y wlad, doedd dim am rwystro criw sylweddol o aelodau Clwb Hanes Rachub rhag llenwi ystafell fawr y Clwb Criced i wrando ar Dr. John Llywelyn Williams yn traddodi ei ddarlith hynod ddiddorol, 'Cynffonwyr Punt y Gynffon – Bethesda 1900 – 1903.'

Roedd gwaith ymchwil manwl yma, yn trafod helyntion y streicwyr yn ogystal â'r rhai a ddychwelodd i'r chwarel. Trafodwyd yr hollt enfawr a achosodd y streic yn yr ardal, a'r unigolion a'u teuluoedd a effeithiwyd gan ormes yr Arglwydd Penrhyn a'i griw.

Pwysleisiwyd fod dwy ochor i bob stori, a bod rhaid ystyried amgylchiadau'r 'dychwelwyr', gan nad oedd bywyd yn rhwydd o gwbwl iddynt. Er eu bod yn cael arian a ffafrau tra'n gweithio yn y chwarel, roeddynt yn parháu i fyw yn y gymuned, a doedd hynny, yn bendant, ddim yn hawdd!

Roedd yr Arglwydd Penrhyn ac E.A. Young yn cythruddo cymaint ar y streicwyr, nes fod eu rhwystredigaeth, o bosib, yn troi'n wylltineb corfforol yn erbyn y 'bradwrs'. Cafwyd hanesion di-ri' am dyrfaoedd enfawr yn gorymdeithio drwy Stryd Fawr Bethesda, ymosodiadau ar wragedd y dychwelwyr, plant yn ofni mynd i'r ysgol, yr heddlu'n gorfod hebrwng gweithwyr o'r orsaf drenau i'w cartrefi, a chriw o Rachub yn dwyn pastynau'r heddlu ac yn ymosod arnynt!

Ond parháu â'i driciau wnai Penrhyn, gan wobrwyo mwy ar y dychwelwyr, defnyddio ysbîwyr i gasglu gwybodaeth am fwriadau'r streicwyr, a defnyddio'r wasg i gyhoeddi llythyrau gan y dychwelwyr, - yn diolch iddo am ei haelioni tuag atynt! Ond gellir bod yn eitha' pendant mai Penrhyn ei hun oedd yn ysgrifennu'r rhain! Does ryfedd fod y streicwyr yn gwylltio!

Ond roedd gan y dychwelwyr resymau pendant dros fynd i weithio, a chredent yn gryf yn yr hyn oeddent yn ei wneud! Nid ar chwarae bach y gwnaethpwyd y penderfyniad; roedd y rhan fwyaf yn gorfod dychwelyd mae'n debyg, am wahanol resymau. Roeddynt yn dioddef yn enbyd hefyd, ond wedi gwneud y penderfyniad, ac yn ceisio byw bywyd 'normal' mewn amgylchiadau dychrynllyd o anodd.

Diolch John, am ddarlith wych ac am agor y drysau i ymchwilio ymhellach i'r rhan bwysig yma o hanes ein cymuned.

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, – Hydref 25ain 'Corlannau'r Carneddau' gan y ffotograffydd Nigel Beidas.

**Te Bach**

Cawsom de bach ar ddiwedd mis Medi ac roedd pawb yn falch iawn o gael cyfarfod unwaith eto ar ôl toriad yr haf.

Diolch i'r merched a fu'n paratoi'r bwyd, yn gweini wrth y byrddau bwyd a'r byrddau gwerthu, ac wrth y drws hefyd.

Roeddem ni'n falch o gael croesawu Fred a Charles Doyle am y tro cyntaf i'r te bach ac yn gobeithio eu bod nhw wedi mwynhau cael sgwrsio ac y cawn ni eu croesawu nhw atom ni yn y dyfodol.

Roedd elw te bach y mis yma i'w roi tuag at Ffynhonnau Byw sef ymgyrch yr Annibynwyr Cymraeg ar y cyd â Chymorth Cristnogol i helpu pobl dlawd Colombia yn Ne America wrth sefydlu systemau dŵr glân.

Derbyniwyd £250 i gyd a diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi.

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**

**Nos Fercher, Hydref 25ain 2023 am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced**

Bydd sgwrs gan
**Nigel Beidas**

**'Corlannau'r Carneddau'**

**CROESO CYNNES!**

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Daeargryn Morocco**

Ymhlith y miloedd a brofodd y ddaeargryn frawychus ym Morocco ar 10 Medi oedd Elen Griffiths o Pen y Bryn, Waen Wen. ‘Roedd hi a’i gŵr yn eistedd tu allan i’w tŷ am 11yh ym mhentref bach Douar Rakouane sydd ryw 45 munud tu allan i Marrakesh, ac awr o Fynyddoedd yr Atlas, pan glywsont swn mawr fel taran a chryndod y ddaear, Roedd y pwll yn yr ardd fel tsunami a chlywodd y llestri a’r lluniau yn y tŷ yn disgyn yn deilchion i’r llawr.

Yn ôl Elen ‘ryw ugain eiliad barodd y cwbwl ond mae wedi gadael dinistr mawr ar ei ôl. Mae oddeutu 300,000 o bobol wedi colli eu cartrefi a 3,000 wedi marw, y rhan helyw mewn pentrefi bach ddiarthfordd ym mynyddoedd yr Atlas, lle nad oes posibl eu cyrraedd ond efo mul.

Yn y diwrnodau yn dilyn y ddaeargryn bu i Elen a’i gŵr helpu yn yr argyfwng drwy fynd a bwyd a dillad i’r creaduriaid a oroesodd y ddaeargryn. Bu Elen yn siarad am ei phrofiad ar Radio Cymru a Newyddion S4C.

**Pen Blwydd Arbennig**

Pen Blwydd hapus iawn i Elizabeth Evans, gynt o Fferm Penhower Uchaf, sydd nawr yn byw yng Nghae Garnedd ar ddathlu ei Phen Blwydd yn 90 oed. Cafodd ddiwrnod pleserus gyda’i theulu a ffrindiau yng Nghau Garnedd.

**Bingo**

Cafwyd noson Bingo ar 29 Medi yn y Ganolfan at MIND. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd at y noson mewn unrhyw fodd, gwnaed elw o £102. Cynhelir y Bingo nesaf ar 27 Hydref am 7yh. Dowch draw am noson o hwyl!

**Dosbarthiadau yn y Ganolfan**

Daeth apêl gan y Grŵp Arlunio a’r Ioga am aelodau newydd. Mae’r Arlunio yn cyfarfod ar fore Gwener am 10 - 1 a’r Ioga ar fore Llun o 11 - 12.30. Nid oes yn rhaid i chwi fod yn brofiadol i ymuno ar ddau ddosbarth gan y croesawir dechreuwyr. Cysylltwch â Mair, manylion fel uchod, os am fwy o wybodaeth i’w basio ymlaen.

**Cylch Glasinfryn**

Croesawodd Mair bawb yn ôl i’r Cylch ar 13 Medi, wedi gwyliau’r haf, braf iawn oedd gweld cynifer yn y cyfarfod gyda dwy ymwelwraig. Arwyddodd bawb oedd yn bresennol gerdyn Pen Blwydd i Elizabeth Evans, Cae Garnedd, gynt o Fferm Penhower Uchaf ar achlysur ei phen blwydd yn 90 oed. Bu Elizabeth yn aelod ffyddlon iawn i’r Cylch ac i’r Sefydliad y Merched cyn hynny.

Rachael Williams o “Dark Side of the Bloom”, West End, Bangor oedd ein gwraig gwadd, rhoddodd arddangosfa gwneud torch gan ddefnyddio blodau a chynnyrch gardd gan roddi llawer o awgrymiadau defnyddiol wrth iddi weithio.

Diolchodd Margaret Owen i Rachael am y pnawn difyr ac addysgiadol. Jocelyn enillodd y dorch ar y diwedd a roddwyd gan Rachael. Diolch i Kath, Jean a Margaret am y lluniaeth ar ddiwedd y cyfarfod.

Cadi Iolen, o’r Amgueddfa Llechi, Llanberis ddaw atom ar 11 Hydref i siarad am “ 50 degawd o gasglu”.

Ar 8 Tachwedd, am 2yp, sgwrs ar ”Ar draws y Fenai, pam a sut” fydd testun y sgwrs gan John Cole. Croeso cynnes iawn i bawb.

## Marchogaeth yn Aintree

Cafodd Lydia ac Elsi Griffiths, Caer Wredog, Waen Wen brofiad fythgofiadwy o farchogaeth ar eu ceffylau bach gwyn yn y Ganolfan Rhyngwladol Marchogaeth yn Aintree, Lerpwl.

‘Roedd y ddwy wedi cymhwyso ym mis Mai mewn cystadleuaeth gyda Clwb Marchogaeth Ynys Môn i fynd ymlaen i’r gystadleuaeth terfynol yn Aintree ar 30 Medi. Daeth Elsi yn 1af yn ei dosbarth a Lydia ei chymeradwyo. Arddechog yn wir genod!






**Ymweliad a’r Amgueddfa Genedlaethol**

Ar 28 Medi teithiodd Anna Pritchard (Griffiths) Dylunydd Tecstiliau, Bryn Gwredog, Waen Wen, i roi sgwrs am ei gwaith i Noddwyr yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Yn ystod yr Eisteddfod ym Moduan ym mis Awst dewiswyd un o flancedi Anna o’i chasgliad Clustnodau, oedd yn y Babell Gelf, i’w chael ei arddangos yn yr Amgueddfa, ynghyd a gwaith dwy o artistiaid arall, sef Ann Gibbs o Gaerdydd a Rhiannon Gwyn o Sling yn Nhregarth, y ddwy yn gwneud gwaith Cerameg.

Siaradodd Anna am ei hysbrydoliaeth o’i chynefin a’i hamgylchedd a chafwyd cyfle ar y diwedd i’r noddwyr ei holi am ei gwaith. Clod yn wir i ddylunydd ifanc o Waen Wen!

Mae ei chynnyrch wedi cael ei anfon cyn belled ac America wedi i ymwelwyr weld ei gwaith yn yr Eisteddfod! Pob dymuniad da i Anna i’r dyfodol efo’i gwaith celfydd.

**post@llaisogwan.com**

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

# SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

## CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**



BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**


## Rhiwlas


**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)


**Ailafael**

Ar ôl wythnosau cymharol ddioglyd yr haf mae rhai o gymdeithasau'r pentref yn edrych ymlaen at dymor newydd sbon o weithgareddau. Cyfarfu aelodau cangen Merched y Wawr yn y Neuadd ddiwedd Awst i lunio rhaglen ar y cyd, gan dynnu ar eu doniau amrywiol nhw eu hunain a gwahodd rhai o'r cyffiniau i ddod atom i gynnal sesiwn hefyd. Mae'n argoeli'n dda! Mae'r gangen yn cyfarfod am 1.30 ar yr ail brynhawn Mawrth ym mhob mis yn Ystafell Gymunedol y Neuadd. Croeso i gyn-aelodau ailymuno efo ni, a byddai'n braf iawn gweld wynebau newydd yn troi i mewn atom hefyd. Mae'r cyfarfodydd yn rhai cartrefol braf ac yn gyfle i fwynhau cymdeithasu yng nghalon y gymuned.

Braf yw cael dweud fod Clwb Rhiwen wedi ailafael yn yr awenau hefyd. Mae aelodau'r Clwb yn cyfarfod – eto yn Ystafell Gymunedol y Neuadd - ar y 3ydd dydd Mercher o bob mis am 2 o'r gloch. Croeso i aelodau hen a newydd fel ei gilydd.

**Croeso**

Croeso cynnes i'r pentref i Steven a Donna a'r plantos symudodd i fyw i Fron Hyfryd ddiwedd Awst. O Ben-y-groes y daethon nhw yma ond mae Steven yn hanu o ardal Rhiwlas ac mae'n edrych ymlaen at ail-fwrw gwreiddiau yn ei filltir sgwâr. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yma i gyd.

**Croeso adref**

Bu Gerallt, fferm Tan y Weirglodd, yn y Malvinas yn cneifio eleni eto a chafodd hwyl arbennig arni. Ond mae wedi cyrraedd adref o'i daith bell erbyn hyn. Croeso'n ôl iti, Gerallt!

**Aduniad**

Cafwyd noson hwyliog iawn yng Nghlwb Rygbi Bethesda ddechrau Medi pan drefnwyd aduniad i gyn-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen oedd yn 70 a throsodd. Bu Elwyn Jones, ynghyd â Richard Llwyd Jones, Wil Parry a John Baston, yn ddiwyd iawn yn trefnu'r noson a daeth criw o bob rhan o Gymru draw i Fethesda i roi'r byd yn ei le, i hel atgofion ac i fwynhau adloniant gan y bytholwyrdd Hogia'r Bonc! Mae sôn fod bwriad i gynnal noson debyg eto yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen!

**Dathlu'r 150**

Ym mis Mawrth nesaf (2024) bydd Ysgol Rhiwlas yn dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed! Er mwyn gwneud y gorau o'r dathliadau, mae'r ysgol yn awyddus iawn i dderbyn unrhyw hen luniau o'r ysgol os hoffech chi eu rhannu efo nhw. Fe fydden nhw'n ddiolchgar dros ben gan fod y staff a'r disgyblion presennol yn awyddus i ddysgu mwy am yr ysgol a'i hanes. Mae'n ben-blwydd nodedig. Beth am gynorthwyo'r ysgol i'w gwneud yn un bythgofiadwy?

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Megan Halsted sydd wedi derbyn gradd dosbarth cyntaf yn ddiweddar. Pob lwc i Megan yn ei swydd newydd fel bydwraig yn Ysbyty Arrowe Park, Penbedw.

Llongyfarchiadau i Osian Rowlands ar gael ei ddewis yn brif ddisgybl Ysgol Dyffryn Ogwen am y flwyddyn 2023-2024 hefo Betsan Griffiths.

**Y Neuadd**

Cafodd cylchlythyr lliwgar diweddaraf y Neuadd, yn nodi'r newyddion diweddaraf, ei ddosbarthu yn y pentref ddechrau Hydref. Mae rhaglen lawn o weithgareddau dyddiol a nosweithiol yn y Neuadd erbyn hyn ac mae'n datblygu i fod yn fan cyfarfod poblogaidd iawn ar gyfer partïon hefyd. Os ydych chi am drefnu parti cofiwch fwcio mewn da bryd. Mae modd ichi fwcio lle ar wefan y Neuadd ar www.neuaddrhiwlas.cymru. Gan edrych ymlaen ymhellach, un dyddiad pwysig i'w nodi yn eich dyddiadur yw Rhagfyr 5 pan gynhelir Cyngerdd Nadolig Ysgol Rhiwlas yn y Neuadd.

**Diffib**

Siom – a thristwch – oedd darganfod fod diffib Bro Rhiwen wedi ei ddifrodi gan rywrai yn ystod oriau mân Medi 10. Mae'r heddlu'n gofyn am wybodaeth (rhif digwyddiad troseddol A146342). Yn anffodus does dim modd trwsio'r peiriant ac mae'n rhaid ei anfon yn ôl i gwmni Zoll yn America. Yn y cyfamser mae'r Gwasanaeth Ambiwlans wedi rhoi peiriant ar fenthyg i'r pentref. Meddai Cadeirydd yr Apêl wreiddiol a gododd arian ar gyfer cael y diffib, Elfyn Jones-Roberts: "Mae peiriant fel hyn yn costio rhwng £800 - £1000. Aelodau'r gymuned a gyfrannodd tuag at gael y peiriant allweddol bwysig yma i'r pentref a rydym yn teimlo'n flin iawn am yr hyn sydd wedi digwydd."

**Ar newydd wedd**

Cafodd Annes, Bwthyn Cefn Braich, syrpreis annisgwyl yn ddiweddar pan gafodd wybod bod rhai o'i cherddi o'r gyfrol 'Hel Hadau Gwawn' (Cyhoeddiadau Barddas) wedi eu cyfieithu i'r Iseldireg. Maen nhw i'w gweld ar y wefan lluniadau.com diolch i Mary Burdett Jones o Aberystwyth a Margriet Boleij. Os am weld y cerddi yn eu gwisg newydd cliciwch ar enw Annes ar y wefan ac yna ar faner yr Iseldiroedd ar frig y dudalen ac mi welwch chi'r cerddi yn eu gwisg newydd! Maen nhw mewn cwmni da gan fod rhai o gerddi'r Prifardd Mererid Hopwood wedi eu cyfieithu i'r Almaeneg ar y wefan hefyd, ac mae cynlluniau ar y gweill i gynnal noson o ddarlleniadau barddoniaeth amlieithog yn Aberystwyth ymhellach ymlaen y flwyddyn nesaf.

# YSGOLION ABERCASEG A PENYBRYN









**Bore Agored**
Mae pob dosbarth wedi cynnal bore agored ar gyfer y rhieni i gyflwyno sut mae'r ysgol yn mynd ati i ddatblygu sgiliau darllen y disgyblion. Cafodd y rhieni flas ar wneud gwahanol weithgareddau gyda'u plant yn ogystal a derbyn arweiniad ar sut i'w cefnogi adref. Roedd pawb yn cytuno bod darllen yn sgil hynod bwysig fydd ei angen gydol eu bywyd.

**Croeso**
Croeso mawr i 34 o ddisgyblion newydd sydd wedi trosglwyddo o Ysgol Abercaseg i Pen-y-bryn. Mae pob un wedi setlo'n wych erbyn hyn.

**Chwaraeon**
Mae'r disgyblion wrth eu bodd yn cael blas ar wahanol chwaraeon y tymor yma. Mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn derbyn hyfforddiant criced gyda Steve a blwyddyn 5 a 6 yn datblygu eu sgiliau rygbi gyda Osian.

**Taith Ysgol Penybryn i Gaerdydd**
Bore Mercher glawog oedd hi, pan heidiodd llond bws o flwyddyn chwech lawr am y brif ddinas. Er gwaethaf y tywydd truenus, doedd dim byd am ddifetha hwyliau da ein disgyblion a oedd ar fîn profi tridiau bythgofiadwy.

Caswom groeso gwerth chweil yng Nghanolfan yr Urdd gan Gwion a'r criw, a phawb ar dân i fentro allan a gweld yr holl atyniadau a bwrlwm y ddinas. Bum yn Amgueddfa Sain Ffagan, Y Senedd, taith o amgylch y bae ar gwch cyflym, Stadiwm Principality a llawer mwy. Y pinacl wrth gwrs oedd bowlio deg a ffilm mewn sinema enfawr i ddiweddu'r tridiau. Do, fe ddysgodd y plant lawer am Gymru a Chymry'r gorffennol, a'r presennol, ond roedd cael gweld a phrofi awyrgylch y llefydd uchod yn well na thaflen waith llawn gwybodaeth unrhyw ddiwrnod. Diolch i'r holl staff am eu gofal dros y tridiau, ond mae'r diolch yn bennaf i'r plant am fod yn gwrtais, brwdfrydig ac yn werthfawrogol. Rydych yn ser!




**Antur yng Nglanllyn**
Treuliodd blwyddyn 5 dridiau hwyliog ac anturus iawn yng Nghlanllyn. Cawsant y cyfle i ddefnyddio llawer o'r pwerau dysgu wrth drio pethau newydd megis adeiladu rafft, mentro ar y wal ddringo a chanwio ar Lyn Tegid cyn neidio i mewn i'r llyn. Gyda'r nos roedd cyfle i ymlacio wrth wylio ffilm a gwisgo'n smart a dawnsio'n ddi-stop yn y disgo. Dangosodd pawb eu bod yn barod i gefnogi a chyd-weithio gyda'i gilydd er mwyn llwyddo yn y gweithgareddau a gwneud y mwyaf o'r profiad.



# YSGOL TREGARTH

**Croeso**
Dyma ni nol ar gychwyn blwyddyn ysgol newydd ac mae'n braf dweud fod pawb wedi setlo'n arbennig o dda yn eu dosbarthiadau newydd ac mae llawer o wynebau newydd yma yn yr ysgol.

Croeso arbennig iawn i Mr Gareth Edwards, ein pennaeth newydd, atom I'r ysgol. Rydym yn gobeithio y bydd Mr Edwards yn hapus iawn yn ein plith.

Croeso cynnes hefyd i Ms Sera Jones sydd yn dysgu blwyddyn 2 a 3 dros gyfnod mamolaeth. Gobeithio y bydd hithau hefyd yn hapus iawn yn Nhregarth.

Mae plant bach y dosbarth meithrin wedi setlo'n wych ac yn mwynhau dod I'r ysgol bob prynhawn. Yn ogystal, mae'r dosbarth derbyn hefyd yn mwynhau cael bod yma yn yr ysgol gyda ni drwy'r dydd.

Croesoi rieni'r plant sydd yn newydd i'rr ysgol hefyd.

Rydym wedi bod yn ffodus i gael nifer o blant newydd yn ymuno mewn amryw o ddosbarthiadau drwy'r ysgol – croeso cynnes iddyn nhw a'r rhieni hefyd.

# Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart





Yn 'toedd 'Steddfod Boduan yn wych?! I lawer a fynychodd Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, roedd hi'n wythnos fythgofiadwy i ailjarjio'r batris diwylliannol ac i'r rhai oedd yn gwylio o adre, gobeithio eich bod wedi profi rhywfaint o hwyl a bwrlwm y Brifwyl.

Roedd gan fy nghwmni Cwmpas stondin ar y Maes gyda'r gwahanol brosiectau yn hyrwyddo eu gwasanaethau yn cynnwys Cymunedau Digidol Cymru. Fe ddaethpwyd a'r beic digidol enwog i'w arddangos ar ein stondin ac ar stondinau Age Cymru a Eryri Cydweithredol, gyda degau o bobl o bob oed, (a llwyth o blant) yn manteisio ar seiclo i unrhyw le yn y byd! Bu'r darlledwr adnabyddus Garry Owen ar y beic, ynghyd â'r DJ enwog Huw Stephens ac fe gafodd ei 'fedyddio' hefyd gan y Tad Deiniol o Flaenau Ffestiniog hefyd!

Ar y dydd Mercher, trefnais drafodaeth banel ar ein stondin gyda Tegwen Morris, Merched y Wawr; Lowri Jones, Golwg; Aled Phillips, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru; a Caryl Jones, rheolwr Canolfan Yr Atom yng Nghaerfyrddin. Y testun oedd 'Yr heriau a'r cyfleoedd digidol yn ein Cymunedau Cymraeg'. Cafwyd trafodaeth ddifyr, gyda'r gwesteion yn tynnu sylw at fudd technoleg ar lefel bersonol o ran iechyd a llesiant, y cyfleoedd ar lefel gymunedol o ran sefydlu mentrau lleol, ar lefel sefydliadol wrth ddelio gyda'r amgylchiadau heriol yn ystod y pandemig. Yr oedd pawb yn gytun fod angen rhagor o waith yn y maes trwy hyfforddiant er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael ar ôl a'u hieithro gan y chwyldro digidol.

Ar y dydd Gwener, mynychais lansiad Archif Ddarlledu Cymru yn stondin y Llyfrgell Genedlaethol. Pwrpas y lansiad oedd rhoi'r diweddaraf am y prosiect anferth hwn a rhoi cyfle i bobl ddysgu am gynnwys yr Archif. Archif Ddarlledu Cymru yw'r archif ddarlledu genedlaethol gyntaf yn y Deyrnas Unedig ac mae'n tyfu bob dydd wrth i fwy a mwy o raglenni gael eu darlledu a dod yn rhan o'r casgliad.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi dod ag archifau BBC Cymru, ITV Cymru ac S4C ynghyd i roi mynediad i dros ganrif o deledu a radio.

Mae'r archif anhygoel hon yn cynnwys rhaglenni ddyddiau cynnar darlledu y BBC yng Nghymru yn ystod y 1920au, y darlledu masnachol cyntaf gan TWW, sefydlu Teledu Harlech, oes HTV Cymru ac ITV Cymru Wales, cyfnod lansio S4C ym 1982.

Gyda dros hanner miliwn o glipiau, yn cynnwys rhaglenni'r gyfres Cefn Gwlad dros y degawdau, mae'r archif hon yn cynnwys mynediad digidol at ddeunydd amhrisiadwy sydd wedi cael ei gadw mewn fformatau amrywiol ar hyd y degawdau, a sgriptiau o'r cyfnod o 1932 ymlaen. Lle mae posib mynediad i'r Archif?

Ers mis Mawrth eleni, mae posib cael mynediad lawn i Archif Ddarlledu Cymru yn adeilad Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, ond, mae yna gynlluniau yn fuan iawn i gynnal Corneli Clip mewn gwahanol rannau o Gymru yn cynnwys Llyfrgell Llanrwst; Llyfrgell Glowyr De Cymru, Abertawe; Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe gyda'r dyddiadau i'w cadarnhau. Fe fydd posib cael mynediad i'r holl archif o'r Corneli Clip. Fe ellir gwylio a gwrando ar rai o'r clipiau trwy wefan Clip Cymru, ewch draw i wylio: https://clip.llyfrgell.cymru/ neu am ragor o wybodaeth am y corneli clip: https://www.llyfrgell.cymru/archif-ddarlledu-genedlaethol/corneli-clip


Os hoffech wybod rhagor am unrhyw agwedd o'r byd digidol, neu'n chwilio am hyfforddiant neu gymorth ar ddatrys problem ddigidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

# YSGOL BODFEURIG

Mis Medi roedd Ysgol Bodfeurig yn dathlu 70 mlynedd ers agor ei drysau ar y safle presennol. O ganlyniad mae plant yr ysgol wedi bod yn dysgu am sut mae bywyd ac addysg wedi newid yn yr amser yno.

### Ymweliad Archifdy

Roeddem yn ffodus iawn o gael Caryl o'r Archifdy yn Caernarfon yn ymweld a ni. Daeth a llawer o luniau i ddangos sut roedd yr ardal wedi newid ac sut roedd bywyd wedi newid dros y ganrif ddiwethaf. Roedd pawb wedi rhyfeddu yn gweld yr hen ffordd o olchi dillad, hen botel dwr poeth ac heb anghofio petha fel y gansen a llechi i ysgrifennu arnynt – tipyn o newid o'r Chromebooks ac iPads sydd ganddynt heddiw!



### Diwrnod Ieithoedd Ewrop

Pob mis Medi mae Diwrnod Ieithoedd Ewrop yn cael ei ddathlu. Eleni fe aethom ati i astudio tair gwlad gwahanol. Bu dosbarth Idwal yn edrych ar Sbaen gan goginio a blasu paella, dysgu i siarad Sbaeneg a chael cyfle i ddawnsio flamenco! Ym mlwyddyn 3 a 4 roeddent yn astudio Ffrainc gyda pawb yn mwynhau dysgu cyfarch mewn Ffrangeg, blasu croissants, brioche a mwy yn ogystal a gwneud fideos am Ffrainc. Roedd plant hynaf yr ysgol yn edrych ar Groeg. Buont yn brysur iawn yn creu salad groegaidd cyn ei flasu gyda tzatziki a bara pita. Cafodd pawb hefyd gyfle i greu fideos gyda cyfarwyddiadau creu'r salad. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig yn dysgu.




Bu blwyddyn 2 yn helpu i goginio paella!

### Her darllen yr Haf

Llongyfarchiadau i griw o blant yr ysgol gymerodd ran yn her darllen yr Haf mewn llyfrgelloedd gwahanol eleni. Braf oedd cael eu gwobrwyo gyda medal yn ddiweddar.

### Dathlu 70

Fel y clywsoch mae'r ysgol wedi dathlu ei phenblwydd yn 70 oed! I ddathlu rydym yn bwriadu agor drysau yr ysgol i gyn ddisgyblion a ffrindiau yr ysgol ym mis Tachwedd. Bydd cyfle i edrych ar hen luniau, sgwrsio a chael edrych o gwmpas yr ysgol. Bydd mwy o fanylion i ddilyn – cadwch lygaid allan ar y cyfryngau cymdeithasol.



### Gwersi Rygbi

Diolch i Osian – Swyddog Rygbi Dyffryn Ogwen, sydd yn dod acw yn wythnosol i hyfforddi plant dosbarth Ogwen. Mae pawb wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd. Tybed fydd rhywun yn eu plith yn chwarae i Gymru rhyw dydd?


**JOHN ROBERTS**



**Paentiwr**

**Papurwr**

**Teilsiwr**

**Symudol: 07747 628650**

**Ffôn: 01248 600995**


Dilynwch Llais Ogwan ar X

**@Llais_Ogwan**

# YSGOL LLANLLECHID

**Croeso**
Croeso nôl i bob un o'n teuluoedd ar ddechrau blwyddyn academaidd arall. Estynnwn groeso cynnes iawn i Miss Ela New a Mrs Annwen Burgess Williams atom fel cymhorhtyddion; rydym yn hynod o falch o'ch gwasanaeth yma hefo'n disgyblion ieuengaf.

**Dymuniadau Gorau**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Lliwen Jones, cyn brifathrawes Ysgol Tregarth a Bodfeurig, yn ei swydd newydd a chroesawn Mr Gareth Edwards i`r dalgylch, yn ei swydd fel prifathro ar Ysgolion Tregarth a Bodfeurig.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Zoe Williams ar ei phriodas fendigedig yn ystod gwyliau'r haf. Dymuniadau da am hir oes a phob hapusrwydd i Zoe a Dion – sef Mr a Mrs Doyle, a'r teulu bach, Nansi a Loti.

**Gwasanaeth Boreol**
Braf oedd croesawu y Caplan Bro, y Parchedig Sara Roberts i roi cyflwyniad ar ddiolgarwch yn ein gwasanaeth. Cafwyd cyfle i ddilyn taith y dorth a chanu 'Tu ôl i'r dorth mae'r blawd...', a dweud diolch i Dduw am y cynhaeaf.

**Ymweld ag Eglwys Glanogwen**
Cafwyd cyfle euraidd i ymweld ag Eglwys Glanogwen ar ddiwedd mis Medi, a diolch i'r Parchedig Sara Roberts am y croeso. Cafwyd cyfle i ddysgu llawer am nodweddion yr Eglwys. Roedd dosbarth Mrs Tegid a Mrs Rona Williams wrth eu boddau. Edrychwn ymlaen i gael mynd i Gapel Carmel at Mrs Helen Williams yn fuan hefyd.

**Teithiau Cerdded**
Bu rhai o'r disgyblion hynaf ar deithiau cerdded diddorol er mwyn dod i adnabod eu milltir sgwar. I chwarel y Penrhyn aeth dosbarthiadau Mrs Llinos Wilson, Ms Gwenlli Haf a Mr Stephen Jones, a chael cyfle i synnu y rhyfeddu at y ponciau, sy'n anffodus, yn prysur diflannu. Rhyfeddu hefyd at y Weiren Wîb, a'r llyn sy'n ymddangos yn ddi-waelod. Roedd ein plantos yn rhyfeddu at y ffaith mai hwn oedd yn chwarel mwyaf yn y byd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd oddeutu dwy fil a phum cant o chwarelwyr yn gweithio yno!

**Diogelwch ar y We**
Rydym i gyd yn ymwybodol pa mor bwysig ydi cadw'n ddiogel ar y we; a pha mor bwysig ydi cymryd gofal eithriadol wrth ddefnyddio'r we. Diolch i PC Andy Jackson am ddod i'r ysgol i'n cynorthwyo i ledaenu'r neges bwysig hon.

**Talcen y Deyrnas**
Diolch i Mrs Marian Jones am ein cynorthyo gyda'r hen enwau, aeth dosbarth Mr Sion Llywelyn i 'Dalcen y Deyrnas'. Dyna i chi enw da! Fel y gwyddoch, Talcen y Deyrnas yw'r lle uwchben giat y mynydd yn Rachub, ac mae golygfeydd ysblennydd oddi yno; lle huddus! Dyma gerdyn post 1929:






**Llyn Cororion**
Llecyn rhyfeddol ydi'r fan lle mae Llyn Cororion! Lle hudolus arall, lle 'roedd ein plantos wrth eu boddau yn chwilio am y Tylwyth Teg ymysg y gweiriach! Diolch i Mr a Mrs Dewi Jones, sef tad a mam Gruff a Caio am y croeso cynnes, a diolch am gael mochel rhag y glaw yn yr ysgubor! Profiad gwerth chweil!

**Sêl Cist Car**
Cafwyd Ffair Hydref ychydig yn wahanol eleni, ar ffurf Sêl Cist Car! Arbrawf oedd hyn, ond arbrawf a weithiodd yn rhyfeddol o dda, diolch i'n pwyllgor Rhieni/Athrawon diwyd am eu holl with, o dan gadairyddiaeth Mrs Ceri Evans. Diolch hefyd i Mrs Catrin Heledd am syniad y Bake Off! Heb os, dyma oedd y stondin gacenau fwya' eto! Diolch i Mrs Lois Nottingham am feirniadu'r gystadleuaeth. Dyma'r canlyniadau:

**Dosbarth Mrs Wilson**
1 Grace, 2 Amelia, 3 Naomi

**Mr Stephen Jones**
1 Awel Grug, 2 Addison, 3 Efan Henri

**Miss Gwenlli Haf**
1 Lili, 2 Elain, 3 Gavin

**Mr Sion Llywelyn**
1 Dei, 2 Iwan, 3 Becca

**Mrs Nerys Tegid**
1 Macsen, 2 Elliw

**Sialens Darllen**
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu gwaith da dros yr haf, yn darllen cynifer o lyfrau a mynychu eu llyfrgell lleol. Da iawn chi – a daliwch ati i ddarllen!

Eos Hughes, Nina Twemlow, Efa Rhos Hughes, Eban Llwyd Hughes, Eunice Adeymi, Iremide Akanbi, Addison Elis – Williams, Macsen Elis-Williams, Freddie Jones, Oscar Jones, Efa Gwen Owen, Nel Owen, Matti Roberts, Mili Roberts, Ioan Tetlow, Alisha Thomas, Naomi Thomas.



**Gwasanaeth Heddwch**
Ar ddiwrnod rhyngwladol Heddwch y Byd, cynhaliwyd gwasanaeth teimladwy ysgol gyfan. Tywyllwyd y neuadd a chafwyd cyfle i oleuo fflam ein cannwyll heddwch. Bu'r disgyblion yn gwrando ar stori arch Noa, a deall arwyddocâd y golomen, a chael cyfle i edrych ar wahanol symbolau heddwch. Roedd y geiriau canlynol yn atsain y nein clustiau, wrth i ni feddwl o ddifrif am wir ystyr y gair 'heddwch':

*Heddwch yw tegwch, nid ar amod*
*Lliw na thrais,*
*Na sarhad drwy eiriau câs*
*Rhannwch ein cariad drwy'r holl fyd,*
*Estyn llaw, a down ynghŷd*
*Fel un i rannu'r neges,*
*Rho dy hedd....'* Rhiannon Williams

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Seremoni Gwobrwyo 2023**

Cynhaliwyd Seremoni Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 13eg. Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academaidd, yn allgyrsiol ac o ran eu ymdrech gyda'u gwaith ysgol. Y wraig wadd eleni oedd Mrs Margaret Williams Roberts, yn bennaeth Hanes Ysgol Dyffryn Ogwen.

Y disgyblion a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni, gyda dros ddwsin o raddau A* ac A bob un oedd Hannah Ellis, Emma Jones, Megan Macdonald-Jones a Rhiannon Roberts. Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Ioan Emptage, Elin Lewis, Mared Morris a Mared Rowlands, pob un efo pedair gradd A* neu A.

Kian Sturrs a dderbyniodd y Wobr Cynnydd a noddwyd gan y teulu er cof am Wyn Davies, Bronydd Isaf.

Cyflwynwyd Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni i Elin Lewis, Mared Morris a Swyn Owen. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol am berfformiadau Lefel A eithriadol i ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Cymru.

Aeth Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr i Cian Rhys.

Diolch i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddisgyblion a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Enillwyr eleni Ethan Artell, Celyn Rhys, Gethin Hughes, Ethan Lloyd Roberts, Cadi Hughes, Catrin Morris, Erin Carson a Darren Pritchard.

Derbyniwyd gwobr Cyngor Cymuned Llanllechid am eu gwaith gyda Bagloriaeth Cymru gan Hannah Ellis, Emma Jones, Elin Lewis, Mared Morris a Swyn Owen.

Cyflwynwyd Gwobr Goffa Charlotte Speddy eleni i Justin Williams am ei ymdrechion yn helpu disgybl iau drwy'r flwyddyn ac mae Ysgoloriaeth Charlotte Speddy eleni wedi mynd i Eleri

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Mattia D'Amora am ei lwyddiannau ym maes pêl-droed yn bennaf; mae Mattia erbyn hyn yn aelod o Academi Wrecsam.



Gwobr Seren Blwyddyn 10

Cyflwynwyd Tlws Athletwr y Flwyddyn i Gwenno Beech am ei llwyddiannau mewn sawl camp dros y flwyddyn.

Cerys Elen a Sion Lewis oedd enillwyr gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobr a gyflwynir gan y Pennaeth i ddisgyblion sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol.

Llongyfarchiadau hefyd i'r holl ddisgyblion a dderbyniodd wobrwyon pynciol, gwobrau Seren ac i dîm y flwyddyn sef tîm rygbi blwyddyn 7, enillwyr cystadleuaeth Ysgolion Gwynedd.

Diolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled ac wrth gwrs i'r rhieni, staff a llywodraethwyr am eu cefnogaeth iddynt.



Aelodau o Tîm y Flwyddyn


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

## Capel Shiloh Newydd

Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon.

Hydref 22 – R.O. Jones, Gaerwen
Hydref 29 – Dr Ian Morris
Tachwedd 5 – Hugh Pritchard, Llangefni
Tachwedd 12 – Dr Ian Morris
Tachwedd 19 – Ellie Jones, Coed y Parc
Tachwedd 26 – Olaf Davies, Llandegfan

Drws Agored bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Cwmni, sgwrs a phaned i bawb hoffai droi i mewn i le cynnes!

Cofion at bawb o aelodau a chyfeillion Shiloh sydd ddim yn dda ar hyn o bryd. Bu farw un o selogion Drws Agored sef Ann Hughes, Ffordd Tanrhiw gynt ac Anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu. Meddwl amdanoch i gyd.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Emily a Josh, Braich Melyn ar enedigaeth Norah Glyn. Mae Norah fach yn wyres i Shân a Chris Robinson, Ffordd Tanrhiw ac yn or wyres i Mona Williams, Glynona, Tregarth. Cofion atoch fel teulu.

### Diolch

Dymuna Carys, Sharon, Sioned a'r teulu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli David, gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thaid arbennig iawn.

Diolch i'r Parch. Dafydd Coetmor Williams am ei wasanaeth teimladwy ar yr aelwyd ac ar lan y bedd, ac i Meinir o'r ymgymerwyr angladdau 'Dylan Griffiths, Penisarwaun' am ei threfniadau trylwyr ac urddasol.

Hefyd, diolch i bawb a fynychodd y gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys St. Ann's, Mynydd Llandygai ac am yr holl gyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am David tuag at Ganolfan Feddygol Yr Hen Orsaf, Bethesda. Diolch i bawb.

### Profedigaeth

Daeth profedigaeth fawr i ran dau deulu o Dregarth yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cafwyd sioc o glywed am farwolaeth Magwen Davis, Bae Colwyn fu farw yn ei chartref wedi gwaeledd byr.

Roedd Magwen yn 51 mlwydd oed ac yn ferch i Maud a'r diweddar Cledwyn, Gilfach, Dob a bu farw ar Fedi 18. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Feithrin Tregarth(yn un o'r 5 plentyn cynta pan gychwynodd yr Ysgol Feithrin), Ysgol Tregarth, Ysgol Dyffryn Ogwen a Choleg y Brifysgol ym Mangor.

## Arddangosfa

***Rhiannon Gwyn***

Llongyfarchiadau i Rhiannon Gwyn, Gorffwysfa, Sling wedi i'w gwaith gael ei arddangos yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd yn ddiweddar, gyda'r Amgueddfa yn prynu darn o'i gwaith ar gyfer eu casgliad.

Mae Rhiannon yn gweithio fel artist gan ddefnyddio llechi a cerameg. Cafodd yr anrhydedd hefyd o'i gwaith yn cael ei ddewis i'w arddangos yn y Lle Celf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan ym mis Awst.





***Cefyn Burgess***

Mae arddangosfa Cefyn Burgess yn Storiel, Bangor yn parhau o Fedi 30 hyd Rhagfyr 30. Teitl Yr arddangosfa ydi 'Trwy Law a Llun'. Dyma beth sydd ar gael yn y gwaith anhygoel hwn.'Darluniau cyfoes mewn inc, print a phwyth o Fryniau Casia.

Casgliad Newydd o waith yn dilyn ymweliadau astudio pella he i'r ardal gan gyfeirio at lythyrau gwreiddiol ce had on dros y blynyddoedd.

Rhan o brosiect cyfredol i ddarganfod y cysylltiadau rhwng poblado Cymru a phobl Khasi gogledd-ddwyrain India'.

Roedd yn gweithio ers blynyddoedd ym myd y cyfryngau yng Nghymru ac yn fawr iawn ei pharch yn y byd hwnnw.

Cydymdeimlwn gyda'i phriod Stephen, ei mham Maud, ei chwaer a'i brawd yng nghyfraith Ceri a Greg, ei nai Jac a'r diweddar Beca , a'r holl deulu yn eu galar ar ol Magwen. Bu'r angladd yng Nghapel Hebron, Hen Goldwyn ar Hydref 9.

### Ann Hughes

Ar ddiwedd Mis Medi daeth y newydd trist am farwolaeth Ann Hughes, Cae Garnedd, Penrhosgarnedd yn Ysbyty Gwynedd. Arfera'i fyw yn Ffordd Tanrhiw yn briod i'r diweddar Tudur Mon. Anfonwn ein cydymdeimlad at ferched Ann, sef Caryn a Donna, eu gwyr Ron a Steve, yr wyrion a'r wyresau Ben, Tom, Jac, Sam, Katy a Catherine a'r gorwyrion Olivia, Amalia a Willow. Bu angladd Ann yn Amlosgfa Bangor ar Hydref 12.

### Merched y Wawr Cangen Tregarth

Braf iawn oedd cael ailgychwyn y Gangen yn Festri Capel Shiloh Newydd Nos Lun, Medi 4. Talentau Tregarth oedd thema y noson a daeth yr aelodau a gwaith llaw amryw lole iawn a gynhyrchwyd ganddynt yn ystod yflwyddyn. Cafwyd gwledd liwgar iawn a phawb yn dotio at y gwaith cywrain , lliwgar a hynod ddefnyddiol o waith yr aelodau.

Yn dilyn cafwyd ail wledd o ddanteithio hyfryd roedd rhai o'r aelodau wedi i paratoi a'r bwyd yn amrywiol, blasus a derbyniol. Braf iawn oedd cael cyfle am sgwrs wedi gwyliau'r Haf a chael croesawu pawb yn ol i'r gangen yn ogystal a phori dros raglen y tymor newydd. Diolchwyd i'r Swyddogion am eu gwaith sef Carol Jones, Delyth Jones a Christine Morris Jones.

Pnawn Sadwrn, Medi 30, aeth nifer o'r aelodau mewn bws o Dregarth i Pant Du, Dyffryn Nantlle i gael te prynhawn. Mwynhaodd pawb y croeso a'r wledd wych a baratowyd ar ein cyfer. Diolch unwaith eto i'r swyddogion am drefniadau ardderchog.


Croeso twymgalon i aelodau newydd ymuno gyda'r gangen. Digonedd o nosweithiau difyr a chwmni aelodau o bob oed.

Bydd cyfarfod nesa y gangen Nos Lun, Tachwedd 6, sef noson dan y teitl ' Y Ffordd Sidan'. Dewch bawb i fwynhau.

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 12

**7 OGWEN TERRACE, BETHESDA**



**William Roberts,** a anwyd yn Llanfrothen, oedd yn byw yn rhif 7 Ogwen Terrace, Bethesda yn 1871, gyda'i wraig Catherine a oedd yn enedigol o Langefni. Teiliwr a dilledydd yn cyflogi dau ddyn oedd William. Yn ogystal â William a'i wraig roedd yno saith o bobl eraill yn y tŷ ar noson y cyfrifiad, sef Ellen Roberts a Lena Roberts, dwy wyres i William, a'r ddwy wedi eu geni ym Mhenygroes. Roedd Ellen yn 11 oed a Lena yn 14 oed. Mae Lena yn cael ei nodi fel morwyn ac Ellen yn yr ysgol. Bachgen 18 oed o Lanfairpwyllgwyngyll oedd Richard Hughes, ac yn gweithio fel postmon. Roedd Henry T. Pritchard yn 26 oed ac yn deiliwr, a nodwyd ei fan geni fel York. Un o Langefni oedd John Owen, ac yn grydd yn ôl y cyfrifiad. Pregethwyr oedd y ddau arall, sef Pryse Howell, a Howel R. Jones, y naill o Sir Drefaldwyn a'r llall o Gaernarfon, Pryse gyda'r MC, a Howel gyda'r Bedyddwyr.

Yn y flwyddyn 1879, roedd William Roberts, wedi mynd a Mr J. Haywood, Rofft Villa, Upper Bangor, swyddog y ffordd fawr o'r Amwythig i Gaergybi, i'r llys, yn hawlio iawndal am golled a achoswyd iddo gan y diffynnydd trwy ddod â pheiriant i'w gae ger Bethesda. Ymddangosodd twrnai o'r enw Mr Pritchard dros Mr Haywood, a dywedodd nad oedd gan y llys awdurdod i farnu tros yr achos gan mai gwas oedd Mr Haywood i ymddiriedolwyr y ffordd. Taflwyd y cynghaws allan, er mwyn ei ddwyn i lys arall. (nid oes adroddiad arall ynglŷn â'r achos wedi dod i olau).

Erbyn cyfrifiad 1881 mae William a Catherine yn dal i fyw yn y tŷ, ond erbyn hyn mae Catherine wedi newid ei man geni o Langefni i Landygái ac roedd hefyd flwyddyn yn hŷn na William yn lle pedair blynedd yn iau na fo fel yr ymddangosodd yng nghyfrifiad 1871. Dim ond dau arall oedd wedi ei henwi yn y cyfrifiad am 1881, sef Ellen Roberts, morwyn yn enedigol o Lanllechid, a Thomas Parry, yn lletywr, yntau yn enedigol o Lanllechid.

Mae'r tŷ wedi newid perchnogion unwaith eto erbyn y flwyddyn 1891, gyda **William W. Roberts,** a'i wraig Letitia yno.

Roedd William wedi ei eni ym Methesda, ac yn deiliwr yn ôl ei alwedigaeth. Merch o Lanfairpwllgwyngyll, Môn oedd Letitia. Roedd hi yn 55 oed a William yn 53 oed. Morwyn o'r enw Margaret Williams oedd yn gweini iddynt, a ganwyd hi ym Methesda. Roedd hi'n 16 oed.

Erbyn cyfrifiad 1901 dim ond William a Letitia oedd yn rhif 7 Ogwen Terrace, Bethesda, ond mae oedran Letitia wedi newid i fod yn flwyddyn yn ifengach na William, yn lle dwy flynedd yn hŷn fel yr ymddangosodd yng nghyfrifiad 1891. Bu William a Latitia farw o fewn ychydig wythnosau i'w gilydd ac fe gladdwyd y ddau ym mynwent Glanogwen, William ar y 19eg o Fehefin a Letitia ar y 29ain o Orffennaf 1903. Yn ôl yr wybodaeth ar y garreg fedd, roedd y ddau ohonynt yn 62 mlwydd oed.

Roedd 7 Ogwen Terrace yn wag, neu bod y perchnogion ddim gartref ar noson y cyfrifiad yn 1911.

*(i'w barhau) y mis nesaf - rhif 8 Rhes Ogwen*

# Gair neu ddau

**John Pritchard**

## Mwy na choeden

Hyd y gwn i, fu'r un o'm traed yn agos at Glawdd Offa. Ac yn sicr, fûm i ddim ar gyfyl Wal Hadrian. Hyd yn oed pe byddwn wedi cerdded llwyr y Wal honno mae'n ddigon posib y byddwn wedi mynd heibio i'r goeden heb edrych ddwywaith arni.

Nid felly'r rhelyw o bobl a fu'n ymweld â Bwlch y Sycamorwydden dros y cenedlaethau o weld yr ymateb a fu i gwympo'r goeden yn gwbl ddiangen un noson y mis diwethaf. Yn amlwg, roedd hi'n atyniad poblogaidd; ac nid syndod hynny o weld y lluniau ysblennydd ohoni a gyhoeddwyd ers ei thorri.

Mae'n debyg mai fandaliaeth lwyr ac ynfyd oedd ei thorri, yn arbennig o weld ei bod nid yn unig o fewn Parc Cenedlaethol Northumberland ond yn rhan hefyd o Safle Treftadaeth y Byd 'Ffiniau'r Ymerodraeth Rufeinig'. Dyma hefyd 'Goeden y Flwyddyn, 2016' y Woodland Trust yn Lloegr. Ond i filoedd o bobl, 'Coeden Robin Hood' oedd hi am iddi gael ei gweld yn y ffilm *Robin Hood: Prince of Thieves* a ryddhawyd yn 1991. Gallaf ddychmygu na fyddai pawb wedi gwirioni ar weld y goeden hynafol yn cael ei galw wrth yr enw hwnnw o fyd y ffilmiau.

Roedd yn drist gweld torri'r goeden; ond gyda phob parch i bawb a fu'n 'talu teyrnged' ac yn 'hel atgofion' amdani yn y wasg ac ar y cyfryngau ers ei chwympo.

Roedd yn anodd peidio â meddwl bod gormod o sylw wedi ei roi i'r stori hon. Bron na ddaeth hi'n fwy o stori na'r pedair mil o bobl a laddwyd yn y llifogydd yn Derna yn Libya a'r ddwy fil a hanner a laddwyd trwy'r ddaeargryn ym Morocco rai dyddiau'n gynharach, ac yn fwy o stori hyd yn oed na marwolaeth Elianne Andam, y ferch bymtheng mlwydd oed a drywanwyd ar ei ffordd i'r ysgol yn Croydon.

Yn nhymor y Diolchgarwch, daw cyfle i gydnabod rhyfeddod a phrydferthwch byd Duw ac i ddiolch am ei ddarpariaeth ar ein cyfer.

Ac wrth ddiolch, cawn ein hatgoffa o'r angen i wneud popeth a allwn i warchod y byd hardd a'i adnoddau cyfoethog. Gwnawn y cyfan yn llawn ffydd ac o galon lawen. Ond gwnawn hynny hefyd gan gofio bod yna fwy na'r materol i ymboeni yn ei gylch.

Roedd pobl Ninefe i fod yn fwy gwerthfawr i Jona na'r planhigyn a fu'n gysgod uwch ei ben, ond wylodd Jona fwy dros y planhigyn gwywedig na thros y bobl (Jona 4). Mor werthfawr yw'r byd a phopeth hardd a byw sy'n rhan ohono.

Ond mwy gwerthfawr na'r bywyd sydd ym mhob coeden a phlanhigyn ym myw Duw yw bywyd pob un o'r plant a luniwyd ar ei lun a'i ddelw.

A mwy gwerthfawr hyd yn oed na'r bwyd a diod y mae'n rhaid i'r plant hynny wrthyn nhw ydi'r bywyd ysbrydol a'i fendithion a ddaw trwy ffydd yn Iesu Grist: y bywyd a ddarlunnir yn ei gyflawnder ym mhenodau olaf y Beibl fel 'bwyta o bren y bywyd' (Llyfr y Datguddiad 2:7).

# CHWILAIR



## Chwaraewr Pêl-droed o Gymru

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | I | V | O | R | A | L | L | C | H | U | R | C | H | W | F | H | R | I |
| E | S | E | L | R | A | H | C | N | H | O | J | J | G | L | C | M | B | V | N |
| B | H | X | J | U | I | S | T | V | S | H | E | A | I | M | G | V | H | E | M |
| D | W | H | U | W | Z | M | X | O | V | A | R | D | D | N | A | P | V | A | U |
| Q | H | U | S | O | A | F | R | P | M | E | Y | Q | Z | S | G | I | R | H | C |
| U | M | T | W | N | O | Y | Y | R | T | M | I | A | E | S | L | Z | U | T | F |
| D | X | U | I | P | W | R | N | H | H | C | Y | M | Q | L | H | S | W | E | H |
| **S** | O | Y | E | D | E | G | B | E | E | O | A | J | E | M | A | H | E | P | T |
| **G** | T | C | B | B | E | A | C | U | H | J | U | S | O | M | J | P | L | T | M |
| **G** | I | V | V | D | L | R | C | B | N | E | O | B | O | N | F | R | F | O | G |
| **I** | J | V | I | E | I | R | E | O | R | U | N | H | X | I | E | M | H | T | T |
| **G** | O | S | K | O | P | W | T | M | T | R | T | N | C | M | K | S | C | B | O |
| **N** | R | C | X | V | R | H | Y | H | Y | Y | H | S | E | T | M | R | E | F | Y |
| **A** | J | D | Z | H | G | B | A | C | K | L | W | O | S | S | C | R | A | I | X |
| **Y** | N | I | L | I | X | L | J | C | J | M | L | B | W | T | S | E | X | M | D |
| **R** | X | K | E | F | L | U | I | P | C | Q | Y | I | O | I | L | Y | F | E | R |
| Z | Q | L | R | O | C | M | T | D | G | W | S | L | B | Z | E | B | E | A | J |
| K | J | S | R | E | D | N | U | A | S | N | A | E | D | C | L | N | L | R | V |
| O | G | J | M | A | R | K | H | U | G | H | E | S | P | W | P | G | S | O | W |
| J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg CHWARAEWR PÊL-DROED O GYMRU. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 26 Hydref. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Diolch yn fawr i Alan Davies, Porthaethwy, am anfon testun y Chwilair mis yma, a hefyd i Emrys Griffiths, Rhosgadfan, am anfon rhestr faith o awgrymiadau ar gyfer testunau i'r Chwilair.

**Dyma atebion Chwilair Medi:** Betys (Betis); Bresych; Ffa Dringo; Letys; Meipen; Moron; Panas; Pys (Pus); Rwdan; Tatws; Wnionyn.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gwen Davies, Bethesda; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bethesda;

**Enillydd Medi oedd:** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda

# Natur o'n Cwmpas

# Y Fedwen

Coeden hardd ydi'r fedwen, ac mae hi'n eithaf cyffredin yn ein hardal ni. Un gymharol fach ydi hi, ac mae i'w chael mewn sawl math o gynefin. Gall ffynnu ar weundiroedd, mewn coedlannau cymysg eu coedydd, ac yn ddiddorol iawn, ar domennydd chwareli llechi. Sawl un ohonoch chi, ddarllenwyr hŷn, a fu'n torri coed bedw ar domen lechi a'u llusgo i'r ardd er mwyn cael coelcerth werth chweil ar Noson Tân Gwyllt pan oeddech chi'n blant?

Ceir y fedwen arian (Betula pendula) a'r fedwen lwyd (Betula pubescens), a'r un lwyd ydi'r fwyaf cyffedin yn Eryri gan ei bod yn ffynnu'n well ar lethrau a thiroedd gwlyb. Cynffonau ŵyn bach yw blodau'r fedwen, ac mae'r blodau gwrywaidd a'r blodau benywaidd ar yr un goeden. Mae rhisgl boncyff y fedwen arian fel papur o liw arian, yn frith o holltiadau duon ar ffurf diamwntiau, ond rhisgl llwyd-wyn yn gymysg â rhannau browngoch ysgafn a bandiau duon llorwedd sydd i foncyff y fedwen lwyd. Oherwydd gwynder eu rhisgl, fedr boncyffion y ddwy ymddangos yn go debyg i'w gilydd o bellter, ond o'u gweld yn agos mae rhisgl y fedwen arian yn llawer gwynnach. Hefyd, mae canghennau a brigau'r fedwen arian yn crogi, a rhai'r fedwen lwyd at y fyny. Bydd y fedwen arian yn tyfu i uchder o tua 30m, a'r un lwyd hyd at 20m.

Oherwydd lliw porffor y blagur yn eu tymor, bydd llwyn o goed bedw ar lethr yn sefyll allan o bell fel nodwedd arbennig ym mrodwaith lliwgar y tirlun. Darlun o'r dirwedd sydd gan Gerallt Lloyd Owen yn ei awdl 'Afon', pan fo'n disgrifio'r lan yn y gaeaf ar ôl i'r eira a'r rhew weddnewid yr olygfa.

Gwern a brwyn yn esgyrn brau,
A bedw'n ysgerbydau.

Mae coed bedw'n aml wrth ymyl neu o fewn derlwyni, sef coedwigoedd derw, ac mae gennym hen ddywediad 'Mamaeth y dderwen yw'r fedwen'. Dyma'i ystyr: mae'n arfer gan sgrech y coed, un o adar mwyaf lliwgar y godwig, gladdu mes er mwyn eu storio'n fwyd ar gyfer y gaeaf. Bydd yn eu claddu'n aml o dan goed bedw. Nid yw'r adar yn eu bwyta i gyd, ac mae coed derw'n tyfu o'r mes sydd ar ôl. Felly, mae'r bedw yn gymorth i fagu'r derw.

Erstalwm, byddai rhieni yn gwneud gwialen fedw er mwyn medru ei defnyddio i fygwth y plant pan fyddent yn ddrwg. Er mai bygythiad yn unig oedd y cwestiwn "Wyt ti eisiau imi estyn y wialen fedw?", mae'n dda bod yr arferiad wedi peidio.

Fel yn achos enwau coed eraill, mae'r enw 'bedw' yn digwydd mewn rhai enwau lleoedd yn ein hardal: Cefn Bedw (enw'r hen dyddyn yng Nghae Rhosydd, safle'r stad newydd gyferbyn â Maes Bleddyn); Llwyn Bedw (y stad dai wrth ymyl); Fedw (i'r dwyrain o'r Bronnydd Isaf) a Ffridd Fedw (enw'r ffridd uwchlaw).

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at: Ieuan Wyn, Talgarreg, 85 Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG,* ***ieuanwyn01@gmail.com****, 01248 600297.*




CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

MODURDY
FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Dilynwch Llais
Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# Nyth y Gân



## COEDEN AFALAU

Yn felyn gan afalau, yn gadarn
Mae'n goeden o berlau;
Blodau oedd pan oedd hi'n iau,
Wedyn daeth ffrwyth o'r hadau.

## LLUNIAU O CHWARELWYR

(mewn arddangosfa)

Hen luniau'r chwarel yno; ni allwn
Ollwng nac anghofio;
Magodd hi beth bri mewn bro,
A'i gwŷr a fu'n ddi-guro.
Ni ddof byth i anghofio am gynion,
Am ddynion oedd yno
Yn nhwrw'r dur â'i daro,
Y dur drodd y graig yn do.

## HYDREF

Byrhau mae'r dydd fesul tipyn
A hiraeth a ddaw yn ei dro
O weled y lliwiau yn pallu
O dyfiant fu'n hardd yn y fro.
Mae'r coed wedi syrthio i gysgu
A'r ddaear yn dawel a llwm,
A bydd rhai o'r mân greaduriaid
Eu hunain yn cysgu yn drwm.

## Y DDRAENEN

Yn unig saif y ddraenen ar lithrig
Oer lethrau y ferlen;
Ni fynnodd le'n y fawnen,
Yn y ffridd gwreiddiodd ei phren.

**Dafydd Morris**


Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**

# Ar hynt Henry Rees Davies

Roedd Henry Rees Davies (1861-1940) yn un o deulu dylanwadol Treborth, Bangor. Yn hael iawn ei gefnogaeth i nifer o fentrau lleol, cefnogodd waith y peiriannydd William Ellis Williams (Bethesda) a'r mathemategydd George Hartley Bryan, y ddau yn y Coleg ar y Bryn ganrif a mwy yn ôl. Eu nod oedd gosod sylfaen gadarn ar gyfer hedfan yn ddiogel. Awyren bambŵ oedd labordy Williams a Bryan a noddwyd gan Henry Rees Davies, yr awyren honno yn hedfan yn llwyddiannus ac yn ddiogel ar draeth Llanddona yn 1911.

Rydym yn chwilio am lun o Henry Rees Davies er mwyn tynnu sylw at ei gyfraniad. Os ydych yn gwybod am lun ohono, anfonwch nodyn ataf os gwelwch yn dda, trwy neges ebost at garethffowcroberts@gmail.com.

**Gareth Ffowc Roberts**



**Yr awyren bambŵ ar draeth Llanddona**
**Llun trwy ganiatâd Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor.**


Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk


**Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen** Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

# Llyfr Buddugol Isabel Adonis

“**And**...a Memoir of My Mother”. Enillydd Llyfr Cymreig y flwyddyn 2023 – Creadigol Anffuglennol. Cyhoeddwyd gan Black Bee Books.
(Bras gyfieithwyd nodiadau a phigion Isabel gan Neville Hughes)




**NODIADAU**
Ganwyd fy mam ym Methesda yn 1917. Roedd gan ei rhieni siop groser yn Stryd Cefnfaes. Pan oedd yn chwech oed bu farw ei mam, ac fe'i hanfonwyd i Gartref Bontnewydd gyda'i chwaer ieuengaf, Ethel a'i brawd, John. Aeth i Lerpwl i hyfforddi fel nyrs, ond fe adawodd yn fuan am nad oedd yn gallu siarad digon o Gymraeg. Roedd ei thad wedi dweud wrthi am beidio mynd yn agos at ddynion duon, ond fe aeth i Lundain a chyfarfod “American G.I.” ac fe gafodd blentyn ganddo. Wedyn fe wnaeth gyfarfod fy nhad oedd yn fyfyriwr ysgoloriaeth o India'r Gorllewin. Ar ôl ychydig flynyddoedd yn Llundain symudodd y teulu, a oedd bellach â phedwar o blant, i fyw yn Khartoum yn Sudan. Roedd fy mam wedi ennill cystadeuaeth ysgrifennu traethawd yn yr Eisteddfod, ac ‘roedd â'i bryd ar fod yn ysgrifenwraig. Roedd fy nhad hefyd yn awyddus i fod yn ysgrifennwr, ac yn nes ymlaen fe ddaeth yn enwog, ond ddaeth hi ddim. Arhosodd ei hysgrifau hi ar ddarnau o bapur mewn hen “carrier bag”.

**PIGION O'R LLYFR**
*Ganwyd fy mam uwchben siop o'r enw Quarry View Stores, mewn stryd o'r enw Cefnfaes Street ar dir a fu'n rhan o Stad Cefnfaes a adeiladwyd ar yr ochr yma i Ddyffryn Ogwen. Galwyd siop ei rhieni yn Quarry View Stores oherwydd eich bod yn gweld Chwarel Penrhyn o gefn y ty a Chwarel Pant Dreinioog o'r ffrynt. Roedd enw'r stryd yn Saesneg yn hytrach na Chymraeg ac yn arwain yn syth i mewn i Chwarel Pant Dreinioog, ble cynhyrchwyd llechi llwyd tywyll gyda rhai yn cynnwys gwahanol liwiau. Roedd yno siediau ar gyfer trin llechi, ac roeddynt wedi eu gwneud o lechi, waliau wedi eu gwneud o lechi, ffensus o lechi, llwybrau o lechi a phileri o lechi, ac yn Cefnfaes Street roedd y tai wedi eu gwneud o lechi a'r toeau hefyd o lechi. Ac ‘roedd yr holl dai gyferbyn a'r chwarel yn Grey Street a'r Carneddi, a'r holl dai oedd yn sefyll yn rhesi uwchben Cefnfaes Street wedi eu hadeiladu o lechi, gyda thoeau llechen, ffensus llechen, llwybrau llechen, cytiau glo bach llechen a grisiau llechen. Ac ‘roedd yr holl dai yna, rhai hefo ffyrdd, rhai heb ffyrdd o'u blaenau – rhai hefo dim ond llwybr troed – roedd y cyfan yno oherwydd y llechen. Roedd y tai yn fychan ac mewn rhesi, rhai hefo sgwâr bychan o wair o'u blaenau a rhai hefo sgwâr o wair yn y cefn. Doedd ‘na ddim llawer o flodau yn y gerddi dim ond clytiau bach o wyrdd. Ac yn y gerddi roedd ‘na gytiau bach wedi eu gwneud o lechen gyda gwair yn tyfu ar y top. ‘Doedd ‘na ddim llawer o flodau ym Methesda! Ac uwchben Cefnfaes Street ‘roedd Bryn Teg Street a Chapel Bryn Teg;'doedd ‘na ddim ffyrdd o'u blaenau ac ‘roeddynt i gyd wedi eu hadeiladu ar ochr y dyffryn yn ymyl y chwarel.*
*Twll anferth yn y ddaear oedd Pant Dreinioog ac ‘roedd o'n dywyll, ac ‘roedd o yng nghalonnau pobl ac yng nghalonnau'r dynion oedd yn gweithio yno, ac ‘roedd trên yn cludo'r llechen o'r twll tywyll, a dynion yn rhoi eu bywydau i'r llechen a'r llechen yn rhoi bywyd iddynt hwythau. O dwll tywyll Chwarel Pant Dreinioog anfonwyd y llechen i bedwar ban byd, ac fe ddaeth Bethesda yn enwog am ei lechi.*
(i'w barhau)

**Mae'r llyfr ar gael ar lein: isabeladonis@hotmail.com**

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.


Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Penblwyddi Arbennig**
Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus i Nicola Wyn Hughes, Sŵn y Nant, ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 60 mlwydd oed ar 26 Medi.

Mae Edna Evans, Allt Penybryn, wedi dathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Llongyfarchiadau phenblwydd hapus i chi Edna.

**Priodas Arian**
Llongyfarchiadau i Dewi a Sharon Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, ar achlysur dathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol ar 26 Medi.

**Ysbyty**
Anfonwn ein cofion at bawb sy'n sâl gartref neu yn yr ysbyty. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais: Brian Tillman, Stryd Fawr; Frank Thomas, llety'r Adar a Terry, Rhes Penrhyn, Dilwyn Owen, Erw Las.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:-
Becky Culshaw a'r teulu, Glanogwen. Wedi colli mam a nain annwyl.

Barbara Williams a'r teulu, Rhes Douglas. Wedi colli chwaer a modryb Carol ym Mangor.

Arwyn a Jo Oliver ar teulu, Ffordd Bangor. Wedi colli eu nith, Magwen o Hen Golwyn, yn 51 mlwydd oed.

Frank a Mair Thomas a'r teulu, Llety'r Adar. Wedi colli brawd a brawd yng nghyfraith ac ewythr.




### Hosbis Dewi Sant

Mae Marilena D'Amora o Ffordd Bangor wedi bod yn hynod o brysur drwy gydol Mis Medi yn cyflawni sialens STEPtember 10,000 o gamau y dydd i godi arian i elusen Hosbis Dewi Sant. Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei llwyddiant!

**Cofio Albert**
Ar 5 Medi yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Albert Humphreys, Stryd Cefnfaes yn 75 mlwydd oed. Mab y diweddar Ellis ac Anne Humphreys, brawd annwyl i Clifford, Edgar, Marian a'r diweddar Thomas Glyn ac Emrys, ac ewythr annwyl.
Ni fu iechyd Albert yn dda ers sawl blwyddyn, ond fe gafodd ofal arbennig gan ei chwaer, Marian. Bu'n aelod selog o Eglwys Crist Glanogwen ble bu'nglochydd am lawer blwyddyn. Cynhaliwyd ei angladd fore Mawrth, 19 Medi, gyda gwasanaethyn yr Eglwys a Mynwent Eglwys Coetmor yng ngofal y Parchedig Sara Roberts a Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth.

**Thomas Richard Jones**
Yn Ysbyty Gwynedd ar 4 Medi bu farw Thomas Richard Jones, Rhos y Coed, yn 88 mlwydd oed. Priod y ddiweddar Heddwen, tad a thad yng nghyfraith gofalus i Alan a Jackie, Colin, Carys a Kevin. Taid hoffus i Ceri, Carl, Alexandre, Chelsey, Siôn, Bronwen a Ffion, a hen daid i Poppy a Noah. Cafodd ei eni a'i fagu yn Rachub, ac yn falch o hynny. Priododd Heddwen yng nghapel y Gerlan. Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar o Gapel Carmel, Rachub, ble cafodd ei ethol yn ddiacon dros 50 mlynedd yn ôl. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Carmel a mynwent Coetmor ddydd Iau, 14 Medi gyda'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams yn gwasnaethu a Mrs. Helen Wyn Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd fel teulu.

**David John Hardwick**
Yn sydyn ar 22 Medi, bu farw David John Hardwick, Stryd Fawr, yn 68 oed. Roedd yn briod â Bonnie, yn dad i Nickolas a'r diweddar Darren, ac yn daid a thad yng nghyfraith. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Llun, 18 Medi. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.
Jacqueline Davies

**Jacqueline Davies**
Yn Ysbyty Gwynedd ar 13 Medi, bu farw Jacqueline Davies, Penrhiw, Mynydd Llandygai, yn 70 oed. Priod annwyl Elwyn, mam a mam yng nghyfraith Lynda a Jason, Sheila a Dave, a Kevin a Lliwen. Roedd hefyd

## Eglwys Crist, Glanogwen

Enillwyr Clwb Cant mis Awst:
£40: - Rhif 162 – Mrs B. Cavannah
£20: – 89 – Mrs Heulwen Roberts
£15: - 140 – Mrs Ffion Bohanna

Enillwyr mis Medi:
£40 – Rhif 95 – Mrs Barbara Owen
£20 - 37 – Karen Williams
£15 – 3 – Ann Carran

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis ar ol y gwasanaeth; croeso cynnes i bawb. Diolch i bawb sydd wedi ail-ymuno a'r Clwb – mae eich cyfraniad yn werthfawr i'r Apel. Os heb wneud, ac yn dymuno, rhaid cysylltu ar frys a Barbara ar 600530 er mwyn bod yn y bag erbyn diwedd mis Hydref.

**Bore Coffi**
Diolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi ar Fedi 30, pan wnaethpwyd elw o £220 at gostau'reglwys.

**Raffl mis Awst**
Llongyfarchiadau i Gwyndaf Roberts, Ffordd Gerlan, enillodd y bocs o boteli. Gobeithio na wnest ti eu hyfed ar un tro Gwyndaf!

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys.
Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae sawl un wedi holi ynglyn a thalu trwy Drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau. Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw 51-61-28 06306284.

Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (Standing Order) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl. Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd. Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ar gael ar 07967 652 981.

yn nain annwyl ac yn chwaer hoffus i'w brodyr a'i chwiorydd. Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Gwener, 22 Medi, yn Eglwys St. Ann a St. Mair ac wedyn ym mynwent Eglwys St. Anne. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu ym Mynydd Llandygai ac yma ym Methesda.

**Phyllis Williams**
Ar 12 Medi, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Phyllis Williams, Adwy'r Nant yn 93 mlwydd oed Chwaer a chwaer yng nghyfraith i Pat a John, Ffordd Pant, chwaer i'r ddiweddar Eileen, ac yn fodryb a hen-fodryb. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener, 29 Medi, gyda'r Barchedig Nerys Griffith yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

**Gorffwysfan**
Ar ddydd Mercher, 13 Medi, cafodd y Clwb wibdaith i Betws y Coed a Llangollen. Cafwyd diwrnod braf, a phawb wedi mwynhau. Bydd y wibdaith nesaf i Farchnad Bury ar ddydd Mercher, 29 Tachwedd.

**Cartrefi Newydd**
Croeso cynnes iawn i Mr. a Mrs. John Rees Jones i'w cartref newydd ym Mryn Caseg. Croeso 'nôl i Ddyffryn Ogwen i Gwen Eluned Jones, gynt o Ffarm Tanrhiw, Tregarth.

**Sefydliad y Merched Carneddi**
Dechreuodd y cyfarfodydd ar ôl seibiant dros yr Haf. Roedd yn braf gweld criw da, ac yn falch o gael croesawu pedair aelod newydd. Bu rhai o'r merched yn gweithio ar Stondin y Ffederasiwn yn Eisteddfod Boduan. Hoffai'r Sefydliad ddiolch i Mr Gwyn Williams Popty, Llanllechid am ei rodd caredig o gacennau cri ar gyfer y stondin yn yr Eisteddfod. Roedd pawb wedi eu mwynhau! Cafwyd noson hwyliog iawn gyda Nia Jones yn cynnal cwis diddorol gydag amrywiaeth o gwestiynau.

Edrychwn ymlaen i groesawu Mary Jones i'n cyfarfod nesaf ym mis Hydref. Rydym yn cyfarfod yn festri Capel Jerusalem ar y nos Iau cyntaf o bob mis am 7 o'r gloch. Croeso cynnes.

**Gwerthwr Ffyddlonaf Llais Ogwan yn Ymddeol**
Mae Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda, wedi rhoi rhybudd y bydd yn rhoi'r gorau i werthu Llais Ogwan ddiwedd y flwyddyn. Bu Joe yn gwerthu'r Llais o'r cychwyn cyntaf yn 1974 – bron i 50 mlynedd! Anodd gweithio allan sawl copi o'r Llais a werthwyd ganddo dros y cyfnod, ond mae'n sicr o fod yn ddegau o filoedd – 30,000 neu 40,000 efallai?? Felly, os oes rhywun yn haeddu seibiant, wel Joe ydi hwnnw!

Mae pawb sydd ynglŷn â Llais Ogwan yn gwerthfawrogi dy holl waith di, ac yn ddiolchgar dros ben i ti am dy gyfraniad aruthrol i lwyddiant Llais Ogwan. (Diolch dy fod wedi penderfynnu parhau i fod yn un o gasglwyr newyddion Bethesda.)

ÔL NODYN: Os oes rhywun yn barod i lenwi rhywfaint o'r bwlch a adewir gan Joe, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthych.

## Yr Eglwys Unedig

**Llongyfarchiadau**
Anfonwn ein llongyfarchiadau ar ganlyniadau arholiadau, a'n dymuniadau gorau i'r dyfodol, at bob un o'r disgyblion sydd â chysylltiad gyda'r Eglwys Unedig. 'Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cofion cywiraf at deulu'r ddiweddar Mrs Phyllis Williams, Adwy'r Nant. Bu Mrs Williams yn ffyddlon iawn i'r Achos yn Jerusalem hyd nes i lesgedd ei rhwystro.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn gaeth i'w cartrefi, neu'n dioddef o lesgedd ar hyn o bryd.

**Cyfarchion**
Dathlodd Mrs Helen Griffith ei phen-blwydd yn ddiweddar – cofion annwyl iawn atoch, a phob bendith i chwi.

**Bore Coffi**
Erbyn y bydd y Llais wedi dod o'r wasg, bydd Bore Coffi McMillan wedi bod yn festri'r capel. Diolch o galon i Minnie am drefnu, ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd – fe gyhoeddir yr elw yn y rhifyn nesaf o'r Llais.

**Llenwi'r Cwpan**
Cofiwch am y baned ar fore Iau, rhwng 10 a hanner dydd – mae'n hyfryd gweld cynifer yn dod at ei gilydd am sgwrs, a rhoi'r byd yn ei le! Croeso cynnes i bawb.

**Oedfaon**
Wedi seibiant dros fis Awst, braf oedd cael dod at ein gilydd unwaith eto, gan ddechrau gydag ymweliad â Chaeathro, ar gyfer oedfa gymun o dan arweiniad ein Gweinidog. Dilynwyd hynny gyda gwasanaethau bendithiol iawn gan y Parchedig Geraint Roberts, a Mrs Carol Jones.

**Cyhoeddiadau**
Dyma'r cyhoeddiadau am y Suliau sydd i ddod:
Hydref 15: Diolchgarwch yr Ofalaeth a Chymun (1)
Hydref 22: Trefniant Mewnol (10)
Hydref 29: Y Parchedig Cledwyn Williams (10)
Tachwedd 5: Trefniant Mewnol (10)
Tachwedd 12: Gweinidog (10)
Tachwedd 19: Y Parchedig Robert Capon (5)

**Gŵyl Afon Ogwen**
Unwaith eto eleni, pleser oedd cael derbyn yr Ŵyl i'r capel a'r festri ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau amrywiol. Hyfryd hefyd oedd gweld y coed mawr yng ngardd y capel wedi'u haddurno'n gywrain dros ben. Diolch yn fawr i chwi'r trefnyddion am eich gwaith.

**Diolch**
Dymuna Pat Roberts, 16 Ffordd Pant, a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur marwolaeth ei chwaer, Phyllis Williams, Adwy'r Nant. Diolch am y cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn , ac am y rhoddion er cof am Phyllis tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r Parchedig Nerys Griffiths, a'r ymgymerwr, Mr. Stephen Jones.




**Jo Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda, un o gefnogwyr mwyaf y Llais ers ei sefydlu.**

# Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Wedi seibiant haeddianol dros yr haf ar ol blwyddyn prysur arall a llwyddiannus, mae'r clwb ffermwyr ifanc wedi ailgydio yn ei gweithgareddau wythnosol.

Dechreuom y flwyddyn, gan gynnal noson o darts a pwl, a chyfle i'r aelodau sgwrsio a ddod i nabod aelodau newydd. Rydym hefyd wedi cael helfa drysor ceir, gyda'r timau i gyd yn llwyddo i orffen yn Clwb Rygbi Bethesda, sef ein catref newydd, ac yn ddiolchgar iawn o croeso cynnes gan Wayne yn wythnosol.

Unwaith eto, ganddom blwyddyn prysur o'n blaenau, ac yn barod mae'r aelodau'n prysur paratoi ar gyfer Eisteddfod CFFI Eryri. Mae croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni ar Nos Fawrth am 7:30pm yn y clwb rygbi.


Blwyddyn yma mae Clwb Dyffryn Ogwen yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed.

I ddathlu'r garreg filltir yma rydym yn trefnu noson i aelodau y gorffennol ar presennol i ddod at ei gilydd i hel atgofion a rhannu hanes y clwb.

Byddwn yn falch o groesawu cyn aelodau a buasai'n braf cael casgliad o luniau o chyn aelodau a digwyddiadau'r clwb, felly oes ganddoch chi rhai dewch a nhw, er mwyn cael trafod atgofion melys o'r clwb dros y degawdau.

Bydd y noson yn cael ei chynnal yng Nghlwb Rygbi Bethesda ar Dachwedd 17eg, gyda gwledd o'ch blaen gan gynnwys bwyd ac adloniant gan Hogia' Bodwrog.

Ffansi mynychu? Bydd tocynnau ar werth yn fuan o Siop Hwb Ogwen. Edrychwn ymlaen am noson a ddifir, diddorol a llawn atgofion melys a chynnes.



## EISTEDDFOD GADEIRIOL
## Dyffryn Ogwen

**Nos Wener, 17 Tachwedd 2023**

Am 6.00yh (Drysau ar agor am 5.45yh) yn Neuadd Ogwen

Seremoni'r Orsedd, Cystadlaethau'r Corau

Unawdau Lleisiol ac Offerynnol a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd

Mynediad: £4.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)

**Sadwrn, 18 Tachwedd 2023**

Dechrau am 10.00yb yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:

Canu, Llefaru, Offerynnol, Dawns, Celf a Chrefft

Mynediad: £3.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Clwb Coffi Talybont

YN FESTRI BETHLEHEM

Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Hydref 30 a Tachwedd 13**
Croeso cynnes i bawb

## CANOLFAN CEFNFAES
## Gyrfa Chwist

Hydref 24 a 31
Tachwedd 14 a 28

am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## FESTRI CARMEL



Cynhelir
TE BACH
**Dydd Llun, 23 Hydref**
2.30 – 4.00

Croeso i bawb.

## EGLWYS UNEDIG BETHESDA

## Y GYMDEITHAS
Noson yng nghwmni Walter Williams

**YN FESTRI JERUSALEM**
**NOS IAU, 9 TACHWEDD**
**AM 7 O'R GLOCH**

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

### MEG ELIS

***Y nain arall – a neiniau pawb.***
**Hanes Deiseb Merched Cymru**

**7.00yh Nos Lun, 13 Tachwedd 2023**

**Wyneb yn wyneb**: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo **garethllwyd197@btinternet.com**

**Rhithiol tros Zoom**: Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org**

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf

£10.00 i rai mewn gwaith
£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif
'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
**BACS: 40-16-02 41386212**
neu gyda arian parod ar y noson

## HEN GARDIA' POST

Os oes rhywun a chasgliad o hen gardia' post i'w gwerthu byddwn yn falch o glywed gennych.

**Efallai y byddech cystal a rhoi caniad i mi ar 01248 670712 gyda'r manylion.**

**Telir pris teg amdanynt** – yn chwilio am rai o Gymru ac Iwerddon yn arbennig ond hefyd Lloegr a'r Alban a thu hwnt.

Gyda diolch, Emyr Jones

Dilynwch Llais Ogwan ar **X**
**@Llais_Ogwan**

## DYDDIADUR BOREAU COFFI



**2023**
14 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen
2 Rhagfyr – Cefnfaes – Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.

**Pwysig**
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*



# Calendr Llais Ogwan 2024

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2024 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwerthu'r Calendr.


Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £4.50 eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen
- Marchnad Ogwen
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Llys Y Gwynt (Siop SPAR)
- Siop Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy


Gellir danfon y Calendr trwy'r post am £2.40 yn ychwanegol.

Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184 / post@llaisogwan.com





# CROESAIR



**AR DRAWS**

3 Arweiniad a chymorth ar sut i gyflawni tasg (9)
8 Talaith yn UDA (4)
9 Rhannau o'r DNA sy'n etifeddol ac yn penderfynu lliw gwallt a llygaid (8)
10 Rhaglen pwyllgor (6)
13 Mae pob un yn cynnwys miloedd o 9 Ar Draws (3)
15 Ceir chwech ar fwrdd snwcer (5)
17 Mae llawer ohonynt yn y ras i ti ennill â'th gyflymder (7)
18 Mynd yn ôl nes dangos sarhad a gwawd (3)
19 Bod ynglŷn â rhywbeth (7)
21 Sioe geffylau yn 8 Ar Draws efallai (5)
24 " - - - fi fy Nuw, - - - fi i'r lan.." emyn W.W. (3)
27 Cloc arddwrn (6)
30 Pa rawd sy yn y nefoedd (8)
31 Miniog a siarp y meddwl (4)
32 Wedi newid a datblygu i'r hyn ydyw erbyn hyn (9)

**I LAWR**

1 Llai na hanner cant yn eistedd i ganu'r nodau (4)
2 Teisen gri ar garreg yn y de (4)
4 Swnio fel pe bai ar borfa, ond cronfa ydyw (5)
5 Pentref yr eglwys a'r efail yn Llŷn (7)
6 Wedi rhuthro roedd yn rhaid cael ei - - - - ato (4)
7 O'r goeden mi gasglaf a llenwi fy masged â'i ffrwythau (6)
11 Cerrig mân (3)
12 Powlen neu lestr gwneud menyn ers talwm (3)
13 Trwch o ŷd yn yr haf neu blu gwyn yn y gaeaf (4)
14 Ogwen ar ei thaith (4)
15 Pa amser i fwyta (4)
16 Cwrs cyntaf 15 I Lawr tybed (4)
17 O un pen i'r llall (3)
18 Ymadrodd am bregethwr heb oedfa ar y Sabath (3,4)
20 Yn ddryslyd mae Sali am fod yn gas a gwneud drwg (6)
22 Bwrw eira ar yr hwntw (3)
23 "Rwy'n caru pob - - - o hen Gymru wen.." Crwys (3)
25 Dyma fy nhynged os caf gweir go iawn (5)
26 Maent yn murmur yn yr awel yn Ystrad Fflur medd y bardd (4)
28 Yn y canol y sathrodd yr hyfforddwr (4)
29 Gwobr tocyn rhif (4)

Atebion erbyn 3ydd Tachwedd 2023 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**ATEBION CROESAIR MEDI 2023**

**AR DRAWS** 1 Lleill, 5 Denu, 7 Amlenni, 8 Cadwynau, 10 Ymyl, 12 Clod, 14 Esboniad, 16 Anerchiad, 17 Lois, 18 Iddew, 19 Stribedi, 22 Afalans, 23 Nwyd, 24 Gwrth
**I LAWR** 1 Llanc, 2 Llanw, 3 P(B)lancedi, 4 Llnau, 5 Dibynnol, 6 Unol, 9 Aflonydd, 11 Y Cariad, 13 Dirywiad, 15 Bodorgan, 18 Ifan, 19 Sian, 20 Basg, 21 Iaith

Sawl gwall y tro yma, sef 'afolans' yn lle 'afalans' (22 Ar Draws); 'siol' a 'Soar' yn lle 'Sian' (19 I Lawr); 'Basc' yn lle 'Basg' (20 I Lawr) a 'Caeth' yn hytrach na 'Gwrth' (24 Ar Draws). Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir : Dilwyn Pritchard, Rachub; Medi Michael, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Judith Hughes, Llangoed; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Iona Williams, Llanddulas; M. Jones, Llanllechid; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dulcie Roberts, Tregarth; Gill King, Mynydd Llandygai; Barbara Jones, Talybont; Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Bethesda.

Y sawl sy'n cipio'r wobr a'r clod y tro hwn yw Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed, Tregarth, Bangor LL57 4PF. Llongyfarchiadau i chi.


Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

Dilynwch Llais Ogwen ar X
**@Llais_Ogwan**